




Adroddiad Trosolwg Cenedlaethol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal



Cynnwys

Rhagair	3
Cyflwyniad	5
Canfyddiadau Allweddol	7
Rhan 1: Proffil	10
Rhan 2: Digonolrwydd	18
Rhan 3: Ymarfer	25
Rhan 4: Partneriaethau	36
Rhan 5: Sefydlogrwydd	39
Rhan 6: Llywodraethu a rhianta corfforaethol	47
Casgliad	51
Diolchiadau	51

Sut i gysylltu â ni

-  Ewch i un o'n swyddfeydd
-  Ffoniwch ni: 0300 7900 126
-  E-bostiwch ni: AGC@llyw.cymru
-  Ysgrifennwch atom:
Arolygiaeth Gofal Cymru
Swyddfa Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
-  arolygiaethgofal.cymru

Rhagair

Yn Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), rydym yn ymrwymedig i godi safonau a chyflawni canlyniadau cadarnhaol ar gyfer y plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas.

Credwn fod gan y plant a'r bobl ifanc yng Nghymru sydd wedi bod mewn gofal hawl i hyn fod yn gadarnhaol ac yn drawsnewidiol ac y dylai pob plentyn sy'n derbyn gofal fwyhau'r un cymorth a chyfleoedd mewn bywyd â phlant eraill.

Caiff ein hymrwymiad i hyn ei adlewyrchu yn ein penderfyniad i ganolbwyntio ar ganlyniadau plant a ddaeth yn rhan o'r system ofal wrth gynnal adolygiad 2018/19 o broses arolygu a gwerthuso perfformiad awdurdodau lleol. Fel rhan o'r adolygiad hwn, gwnaethom ystyried effaith y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant ar fywydau plant sy'n derbyn gofal.

Mae pobl wrth wraidd pwy ydym ni a'r hyn a wnawn fel arolygiaeth. Yn ystod yr adolygiad hwn, siaradodd ein tîm arolygu â phlant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr er mwyn sicrhau bod ein canfyddiadau'n cael eu llywio gan brofiadau uniongyrchol plant a phobl ifanc. Rwy'n hynod ddiolchgar i bawb a roddodd o'u hamser i siarad â ni mor onest am eu

profiadau. Hoffwn hefyd ddiolch i bob un o'r awdurdodau lleol y gwnaethom eu harolygu am y ffordd agored a thryloyw y gwnaethant alluogi ein harolygon i gael eu cynnal ac am gydnabod bod y broses arolygu yn gyfle i gefnogi ac annog gwelliannau yn y system ofal.

Mae'r canfyddiadau yn yr adroddiad hwn, ochr yn ochr â rhai ein hadolygiad thematig o gartrefi plant, yn cyfrannu at waith Llywodraeth Cymru yn gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Byddwn yn parhau i weithio gyda'r partneriaid a'n rhanddeiliaid er mwyn cefnogi'r plant sydd fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a sicrhau bod anghenion unigryw pob plentyn wrth wraidd yr hyn a wnawn.



G. Baranski

Gillian Baranski
Prif Arolygydd

Rap a gyfansoddwyd ac a gyflwynwyd yn dilyn digwyddiad ymgysylltu gan berson ifanc sydd wedi bod mewn gofal

Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn rhoi cymorth ac anogaeth i mi;
Ac maen nhw'n rhoi sgiliau i ni sy'n berthnasol;
Fel y gallwch fyw yn annibynnol;

Mae Gweithwyr Cymdeithasol yn wrandawyr da ac yn trin pawb â pharch;

Ond maen nhw'n busnesu;

Maen nhw'n trafod pa Gynllun Llwybr rydych chi'n ei ddilyn;
Ac yn gwneud cynlluniau ar gyfer dyddiad ac amser y gallwch ddewis mynychu;
Maen nhw'n rhoi Gweithiwr Cymdeithasol i'ch helpu i gael hyfforddiant
a budd-daliadau;

Ond weithiau maen nhw'n ceisio eich troi yn rhywbeth arall;
Dwi wedi cael fy annog i gymryd rhan mewn Gwasanaethau Ieuentid;

Yr agenda yw cydweithio er mwyn ein cadw ni'n ddiogel;
Oherwydd maen nhw am gael y gorau i chi;

Mae'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ceisio gwneud gwahaniaeth
ond siawns o 50/50 sydd yno;

Hoffwn i weld y Gwasanaethau Cymdeithasol yn newid eu ffordd;
Oherwydd gallant fod yn ar goll mewn drysfa fawr.

Duw a'n help os yw'n wir
Achos mae angen hyn ar bob un ohonom

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau o raglen waith Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC), a gynhaliwyd drwy gydol 2018, yn canolbwyntio ar blant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Yn yr adran crynodeb hon rydym yn defnyddio'r term "plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal" ond mae prif gorff yr adroddiad yn defnyddio'r derminoleg statudol "plant sy'n derbyn gofal" ac "y rhai sy'n gadael gofal".

Cyd-destun

Daw'r cyd-destun deddfwriaethol o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Deddf 2014). Mae'r Ddeddf yn cynnwys cyfrifoldebau i awdurdodau lleol wneud y canlynol:

- cynorthwyo teuluoedd i ofalu am eu plant lle y bo'n ddiogel gwneud hynny
- gwella canlyniadau sefydlogrwydd a llesiant y plant hynny sy'n derbyn gofal, yn cynnwys dod o hyd i lety i blant a phobl ifanc yn agos at eu cartref neu eu cymuned.

Yn ystod y cyfnod ers gweithredu'r Ddeddf 2014 ym mis Ebrill 2016, gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Rhoddodd y rhaglen waith hon hefyd gyfle i fyfyrion ar y cynnydd a wnaed mewn perthynas â chanfyddiadau a chasgliadau adolygiadau cenedlaethol cynharach a gynhaliwyd gan AGC a rhanddeiliaid allweddol eraill:

- Adolygiad cenedlaethol o gynllunio gofal ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n destun proses cyn achos yr Amlinellid Cyfraith Gyhoeddus Rhagfyr 2016
- Arolygiad o ddiogelu a chynllunio gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac unigolion sy'n gadael gofal sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri risg lonawr 2015
- Datganiad Sefyllfa Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru (CLILC) ac Gymdeithas Cyfarwyddwyr Gwasanaethau Cymdeithasol (ADSS) Cymru ar Wasanaethau Plant, 2018
- Adolygiad o'r Argyfwng Gofal 2018.

Gwnaethom ystyried y gwaith sylweddol a wneir mewn perthynas â phlant sydd wedi bod mewn gofal yn cynnwys:

- Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar wella canlyniadau i blant a sefydlwyd yn 2016
- Pwyllgor cyfrifon cyhoeddus Cynulliad Cenedlaethol Cymru – Plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, Tachwedd 2018.

Ffynonellau tystiolaeth

Casglwyd tystiolaeth i lywio'r adroddiad hwn o ganfyddiadau hunanwerthusiadau a phroffiliau data a gwblhawyd gan 22 o awdurdodau lleol ym mis Ionawr 2018. Ymysg y rhain roedd gwybodaeth am y broffil o blant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal, digonolrwydd lleoliadau, sefydlogrwydd, effaith Deddf 2014 a chydymffurfiaeth â gofynion rheoliadol o ran lleoli plant y tu allan i'w hawdurdod lleol. Yng nghynnwys yr adroddiad hwn, mae unrhyw ddata y cyfeirir atynt fel 'ar 1 Ionawr 2018' wedi'u cymryd o'r hunanwerthusiadau a gwblhawyd gan awdurdodau lleol.

Mae'r adroddiad hefyd wedi'i lywio gan gyfrifiad Llywodraeth Cymru o blant sy'n derbyn gofal a'r data a gasglwyd am blant sy'n derbyn gofal (SSDA903). Cyfeirir at y data hyn yn yr adroddiad fel 'ar 31 Mawrth 2018'. Lle y defnyddiwyd y data hyn nodwch, er mwyn lleihau'r risg o ddatgelu data personol yn ddiangen, y talgrynnwyd rhifau i'r pump agosaf.

Casglwyd tystiolaeth ansoddol rhwng mis Mehefin a mis Hydref 2018 gan y canlynol:

- Arolygiad o wasanaethau plant chwe awdurdod lleol
- Canfyddiadau gwasanaethau maethu chwe awdurdod lleol
- Cyfarfodydd herio a gynhaliwyd â'r awdurdodau lleol hynny lle na chynhaliwyd arolygiad
- Gweithgarwch ymgysylltu â phlant sydd wedi bod mewn gofal, y rhai sy'n gadael gofal a gofalwyr maeth.

Yn ystod ein harolygiad a'n gwaith ymgysylltu, gwnaethom siarad â thua 100 o blant a phobl ifanc a 77 o ofalwyr. Gwnaethom ganolbwyntio ar y cwestiynau sy'n ymwneud â'r canlynol:

- Pobl yn cael mynediad i wybodaeth, cyngor a chymorth
- Profiad pobl o asesiad
- Profiad pobl o ofal a chymorth a chynllunio llwybrau
- Profiad pobl o gael eu diogelu.

Canfyddiadau Allweddol

Proffil

Cadarnhaodd yr dystiolaeth a adolygwyd yn ystod yr arolygiad fod plant a phobl ifanc mewn gofal yno yn briodol a bod gan y rhan fwyaf ohonynt ddiogelwch cyfreithiol angenrheidiol. Ni welsom dystiolaeth o blant yn dod yn rhan o'r system derbyn gofal na ddylent fod wedi gwneud hynny.

Yn gysylltiedig â'r nifer gynyddol o blant a oedd yn derbyn gofal roedd newidiadau a nodwyd i'r proffil cyfreithiol. Yn benodol gwelwyd cynnydd yn nifer y plant sy'n cael cymorth i aros gyda'u teulu neu gyda'u rhieni o dan drefniadau cyfreithiol ar gyfer derbyn gofal.

Digonolrwydd

Mae plant a phobl ifanc yn gwerthfawrogi'r cymorth a gânt gan eu gofalwyr maeth, eu gweithwyr cymdeithasol a'u cynghorwyr personol. Gwnaethant nodi bod cydberthnasau cadarnhaol yn ffactor pwysig sy'n eu helpu i gyflawni eu canlyniadau llesiant personol.

Roedd yn galonogol gweld cynnydd yn nifer y bobl ifanc a oedd yn dal i fod mewn lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod'. Mae angen i'r opsiwn hwn barhau i gael ei hyrwyddo.

Gwelsom fod cryn amrywioldeb mewn perthynas â ph'un neu pryd y dylai plentyn y mae'r teulu estynedig yn gofalu amdano dderbyn gofal, a hynny mewn ymarfer a pholisi lleol. Er eu bod yn llawn dderbyn eu cyfrifoldeb i wneud y penderfyniad hwn, roedd awdurdodau lleol yn cael eu cymell fwyfwy i letya plant yn yr amgylchiadau hyn oherwydd disgwyliadau'r farnwriaeth. Mae hyn wedi creu sefyllfa wahanol rhwng gwasanaethau plant a'r farnwriaeth. Byddai awdurdodau lleol yn croesawu rhagor o ganllawiau cenedlaethol mewn perthynas â'r mater hwn.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cael trafferth i gyflawni eu dyletswyddau digonolrwydd a dod o hyd i leoliadau addas er mwyn diwallu anghenion plant a phobl ifanc. Mae hyn yn cael effaith andwyol ar y broses o ddewis lleoliadau, gofal parhaol a sefydlogrwydd, ac yn sgil hynny ganlyniadau i blant.

Mae anghenion a ffactorau risg plant sy'n derbyn gofal wedi cymhlethu. Mae angen rhoi mwy o frys i'r broses o gomisiynu amrywiaeth fwy o wasanaethau a dewis o leoliadau er mwyn i awdurdodau lleol a'u partneriaid ddiwallu'r anghenion cymhleth hyn.

Ymarfer

Mae angen gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ynghyd ag atgyfnerthu trefniadau cam i fyny a cham i lawr rhwng gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau gofal a reolir. Byddai o fudd i awdurdodau lleol fod yn fwy agored am eu heriau a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn fwy effeithiol â'i gilydd.

Dadansoddiad gwell o ffactorau sy'n dylanwadu ar blant yn derbyn gofal; effeithiolrwydd gwasanaethau ymyrraeth gynnar ac ataliol; byddai'r hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n gwneud gwahaniaeth yn helpu i gynllunio gwasanaethau cymorth wedi'u targedu'n effeithiol ar gyfer plant a theuluoedd cyn gynted â phosibl.

Mae awdurdodau lleol yn cydnabod bod angen blaenoriaethu'r broses o fynd ati i gyfeirio adnoddau er mwyn lleihau nifer y plant sy'n gorfod derbyn gofal mewn ffordd ddiogel, yn cynnwys plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i ardal yr awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid oes digon o adnoddau yn canolbwyntio ar y broses o ddarparu gwasanaethau ymatebol i'r teuluoedd hynny a oedd mewn perygl o ddod yn rhan o systemau amddiffyn plant statudol ac achosion cyfreithiol, neu a

oedd eisoes yn rhan ohonynt. Mae angen gwneud rhagor o waith er mwyn sicrhau bod llais y plentyn wrth wraidd cynllunio gofal gan ganolbwyntio'n fwy ar y ffordd y gall plentyn gyflawni ei ganlyniadau llesiant personol. Gallai sicrhau bod swyddogion adolygu annibynnol yn craffu'n fwy ar gynlluniau gofal plant a phobl ifanc ac yn eu herio'n fwy yn ystod y broses adolygu helpu i sicrhau'r gwelliant hwn.

Cafwyd twf mewn achosion cyhoeddus gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rhoi'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) ar waith. Roedd y trefniadau PLO gorau yn rhoi cysondeb i blant a'u teuluoedd a thryloywder i'r broses o wneud penderfyniadau.

Gwelsom enghreifftiau o waith amlasiantaethol effeithiol a chymorth dwys i deuluoedd a gofawyr lle'r oedd risgiau o niwed sylweddol. Yn gyffredinol, nodwyd bod angen gwneud gwelliannau o hyd o ran ymatebion amlasiantaethol i ddiogelu plant, a phrin roedd partneriaid amlasiantaethol yn cael eu cynnwys mewn trafodaethau strategaeth.

Partneriaeth

Clywsom am gydberthnasau gwaith da ag asiantaethau partner ar lefel weithredol. Gwelsom ddarlun cymysg o ran gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner ar lefel strategol, ac roedd cryn dipyn o ddatblygu pellach i sicrhau gwaith partneriaeth amlasiantaethol ac 'ymarfer cydgysylltiedig' er mwyn

sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

Fel mater o frys, mae angen canolbwyntio ar sicrhau gwell canlyniadau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal o ran anghenion emosiynol ac anghenion iechyd meddwl, fel y gallant gael gafael ar gymorth amserol a phriodol.

Cydnabuwyd yn gyson fod angen rhoi blaenoriaeth i'r angen i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, er bod y dyheadau'n uchel, mae angen i rieni corfforaethol ac awdurdodau lleol roi mwy o sylw er mwyn sicrhau deilliannau

addysgol gwell i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal.

Roedd atgyfnerthu cydberthnasau gwaith ag adrannau thai a cholegau lleol yn effeithiol o ran gwella'r lefel ychwanegol o gymorth oedd ei angen ar rai pobl ifanc i lwyddo i fyw'n annibynnol heb unrhyw gymorth teuluol.

Sefydlogrwydd

Mae pwysau sylweddol ar y gweithlu gwaith cymdeithasol a digonolrwydd gofalwyr maeth yn golygu ei bod yn anodd i blant a phobl ifanc sicrhau'r cydberthnasau cadarnhaol a sefydlog sydd mor bwysig iddynt. Gwelsom sawl achlysur lle y tarfwyd ar y plant oherwydd newidiadau i weithwyr cymdeithasol a phrinder lleoliadau priodol i ddiwallu anghenion a nodwyd.

Roedd ansawdd y gydberthynas rhwng gofalwyr maeth a phlant yn ffactor allweddol mewn perthynas â chynaliadwyedd lleoliad. Roedd newid lleoliad yn arwain at ansefydlogrwydd sylweddol i blant a phobl ifanc. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym y byddai gwell prosesau o rannu gwybodaeth cyn dechrau lleoliad wedi lleihau effaith newidiadau o'r fath ac wedi sicrhau proses baru fwy effeithiol.

Llywodraethu a rhianta corfforaethol

Gwelsom fod pwysigrwydd a gwerth gwybodaeth perfformiad wedi'u sefydlu'n dda mewn gwasanaethau plant. Mae hwn yn ddatblygiad cadarnhaol oherwydd yn y gorffennol, roeddem wedi nodi diffygion yn ansawdd y wybodaeth perfformiad mewn gwasanaethau cymdeithasol fel dangosydd pryder cynnar.

Byddai ymgysylltu'n well â phlant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr yn helpu

awdurdodau lleol i gynllunio a gweithredu strategaethau'n well er mwyn cynorthwyo teuluoedd a llywio trefniadau comisiynu.


Mae angen llywodraethu a rheoli perfformiad trefniadau rhianta corfforaethol yn gliriach er mwyn galluogi aelodau bwrdd i herio'n effeithiol gan ganolbwyntio mwy ar ddeall yr effaith a gaiff ymyriadau a gwasanaethau ar y canlyniadau i blant sy'n derbyn gofal.

Rhan 1:

Proffil plant sy'n derbyn gofal

Yr hyn a wyddom


Ffigur 1: Tueddiad blynyddol o ran y boblogaeth a rhywedd ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru



Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru>, Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, yn ôl oedran a rhyw, ar 31 Mawrth 2018

- Rhwng 31 Mawrth 2014 a 31 Mawrth 2018, cynyddodd nifer y plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru o 5745 i 6405, sef cynnydd o 11.5%.
- Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn dangos bod mwy o blant wedi dechrau derbyn gofal yn 2017/2018 nag a adawodd ofal.
- Ar 31 Mawrth 2018, roedd 102 o blant fesul 10,000 o'r boblogaeth yn derbyn gofal, sef cynnydd o 13% yn y tair blynedd diwethaf.
- Mae proffil oedran plant a oedd yn derbyn gofal ar 31 Mawrth 2018 fwy neu lai yr un fath â'r dosbarthiad oedran a gyflwynwyd ar yr un dyddiad yn 2017, fel y dangosir yn Ffigur 2. Er y gellir gweld cynnydd ychydig yn fwy yn nifer y plant sy'n derbyn gofal ar gyfer y grŵp oedran 10 i 15 oed.

Ffigur 2: Cymhariaeth flynyddol o blant sy'n derbyn gofal yn ôl ystod oedran



Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru>, Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, yn ôl oedran a rhyw, ar 31 Mawrth 2018

- Ar 31 Mawrth 2018 roedd 92% o blant sy'n derbyn gofal yn wyn; Roedd 3% o grwpiau ethnig cymysg; Roedd 2% yn Asiaidd neu'n Asiaidd Prydeinig; Roedd 1% yn Ddu, Affricanaidd, Caribiaidd neu Ddu Prydeinig ac roedd 1% o grwpiau ethnig eraill.
- Dros y pum mlynedd diwethaf mae cyfran y plant sy'n derbyn gofal o gefndir ethnig nad yw'n wyn wedi parhau'n sefydlog.
- Mae nifer y rhai sy'n gadael gofal yng Nghymru wedi cynyddu ychydig, sef 0.5%, fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018.
- Ar 31 Mawrth 2017 a 2018, roedd y boblogaeth 16 i 24 oed a oedd yn gadael gofal wedi cynyddu o 2193 i 2204, sef cynnydd o 0.5% (11).

Yr hyn a ddysgom

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn hyderus, er gwaethaf niferoedd cynyddol, nad oedd unrhyw dystiolaeth na ddylai'r plant hynny a oedd yn dod yn rhan o'r system derbyn gofal fod wedi gwneud hynny. Cadarnhaodd yr dystiolaeth a adolygwyd yn ystod yr arolygiad fod plant a phobl ifanc mewn gofal yno yn briodol a bod gan y rhan fwyaf ohonynt y diogelwch cyfreithiol angenrheidiol; yr unig gafeat oedd natur y gorchymyn oedd ei angen pan gafodd plentyn ei osod o fewn y teulu.

Mae cryn amrywioldeb mewn perthynas â ph'un neu pryd y dylai plentyn y mae'r teulu estynedig yn gofalu amdano dderbyn gofal, a hynny mewn ymarfer a pholisi lleol. Er eu bod yn llawn dderbyn eu cyfrifoldeb i wneud y penderfyniad hwn, roedd gwasanaethau plant yn cael eu cymell fwyfwy i letya plant yn yr amgylchiadau hyn oherwydd disgwyliadau'r farnwriaeth. Mae hyn wedi creu sefyllfa wahanol rhwng cyfarwyddwyr y gwasanaethau cymdeithasol a'r farnwriaeth ledled Cymru. Byddai awdurdodau lleol yn croesawu rhagor o ganllawiau cenedlaethol mewn perthynas â'r mater hwn.

Nododd awdurdodau lleol gynnydd yn nifer y plant a phobl ifanc a oedd yn cael eu hatgyfeirio ac yng nghymhlethdod yr anghenion a'r risgiau. Roedd presenoldeb materion sy'n cydfodoli fel cam-drin domestig, iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddol, sydd i gyd yn ddangosyddion niwed allweddol ac yn cyfrannu at esgeulustod, yn fwy amlwg ac wedi'u hymwreiddio fwyfwy.

Disgrifiodd nifer o awdurdodau lleol hefyd dueddiadau diweddar yn y math o atgyfeiriad a gawsant, er enghraifft cynnydd yn nifer yr asesiadau cyn geni.

Roedd dystiolaeth gynyddol, hyd yn oed lle'r oedd gwasanaethau gofal a chymorth eisoes wedi cael eu darparu, fod anghenion plant sy'n derbyn gofal yn mynd yn fwy cymhleth. Mae hyn wedyn yn effeithio'n uniongyrchol ar yr amrywiaeth o leoliadau, eu hargaeledd a'u cost.

Byddai awdurdodau lleol, ynghyd â'u partneriaid, yn cael budd o gael dadansoddiad gwell o'r ffactorau sy'n cyfrannu at wneud penderfyniad i blentyn dderbyn gofal ac anghenion a nodwyd i blant. Gall hyn llywio strategaethau comisiynu a gofal parhaol yn well.

Ar gyfer rhai plant, a phobl ifanc yn benodol, gall llety gwirfoddol fod yn briodol er mwyn diwallu eu hanghenion a chefnogi eu teuluoedd. Mae angen i awdurdodau lleol fod yn hyderus bod ganddynt systemau ar waith i sicrhau bod hawliau plant a rhieni yn llywio'r defnydd o drefniadau adran 76 ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar sail wirfoddol.

Gwelsom fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi datblygu proffiliau rhifyddol y plant a'r bobl ifanc yn eu gofal, a oedd yn gadael gofal ac ar ymylon gofal. Roedd gan reolwyr â chyfrifoldeb gweithredol uniongyrchol dros blant sy'n derbyn gofal ddealltwriaeth gynhwysfawr o anghenion eu cohort ac roeddent yn eirioli'n effeithiol ar eu rhan. Fodd bynnag, nid oedd systemau corfforaethol ehangach ar gyfer datblygu dealltwriaeth a rennir o anghenion plant mewn gofal wedi'u datblygu cymaint.

Byddai awdurdodau lleol gyda'u partneriaid yn cael budd o ddatblygu dadansoddiad blynyddol o anghenion plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal, er mwyn llywio eu proses gomisiynu a gofal parhaol. Ag hefyd i sicrhau bod lefelau risg yn cael eu nodi a'u rheoli'n briodol.

Ar gyfer y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, roedd lleihau nifer y plant mewn gofal ac, yn benodol, blant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r awdurdod, mewn ffordd ddiogel, yn flaenoriaeth ac roeddent yn cyfeirio adnoddau at strategaethau i leihau'r niferoedd mewn ffordd ddiogel. Er gwaethaf y sylw a roddir i'r agenda hon, parhaodd y cynnydd cyflym yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Mae'r cefndir i'r cynnydd yng nghyfraddau plant sy'n derbyn gofal yn amlochrog ac yn gymhleth. Maent wedi'u diffinio'n dda mewn gwaith ymchwil ac yn ystod ein rhaglen waith gydag awdurdodau lleol gwelsom nifer o ffactorau cyffredin fel yr amlinellir isod:

Cynnydd mewn galw: Nododd pob awdurdod lleol gynnydd mewn gweithgarwch mewn perthynas ag ymyrryd yn gynnar a chyfeiriadau at wasanaethau plant.

Amddifadedd economaidd-gymdeithaso:

Cafodd y rhyngweithio rhwng amddifadedd economaidd-gymdeithasol a'r ffactorau sy'n effeithio ar allu rhieni, yn cynnwys profiadau plentyndod y rhieni eu hunain, ei gydnabod yn ffactor sy'n effeithio ar wydnwch teuluoedd ac sy'n cyfrannu at pwysau cynyddol ar y gwasanaeth.

Cynnydd mewn ymwybyddiaeth a disgwyliadau:

Yn aml, mae gan gymdeithas safbwyntiau anghyson ar 'rianta derbyniol' ond mae'n uchel ei chloch ynghylch yr hyn a ddylai fod wedi digwydd pan fydd pethau'n mynd o chwith. Nododd awdurdodau lleol fod lefelau uwch o ymwybyddiaeth ymhlith y cyhoedd, disgwyliadau uwch a lefelau uwch o roi gwybod am achosion o gam-drin ac esgeulustod i gyd wedi effeithio ar y galw am wasanaethau a lefelau ymyrraeth.

Statws cyfreithiol plant sy'n derbyn gofal

Tabl 1: Statws cyfreithiol plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar 1 Ionawr 2018

O dan adran 76 o Ddeddf 2014 (adran 20 o'r Ddeddf Plant yn flaenorol)	11.4%
O dan orchymyn gofal llawn	66.8%
O dan orchymyn gofal llawn a gofynion plant NA chânt eu lleoli gyda'u rhieni	54.7%
O dan orchymyn gofal llawn a gofynion plant a gaiff eu lleoli gyda'u rhieni	12.1%
O dan orchymyn gofal dros dro	11.0%
O dan orchymyn gofal dros dro a gofynion plant NA chânt eu lleoli gyda'u rhieni	9.0%
O dan orchymyn gofal dros dro a gofynion plant a gaiff eu lleoli gyda'u rhieni	2.0%
Dim ond yn derbyn gofal am eu bod ar remand mewn llety awdurdod lleol (yn cynnwys cartrefi plant diogel)	0.2%

DS: Ni fydd y canrannau yn gwneud cyfanswm o 100%

Ffynhonnell: Data hunanwerthuso awdurdodau lleol a gasglwyd, 1 Ionawr 2018

Yr hyn a wyddom

- Ar 31 Mawrth 2018, roedd y mwyafrif (80%) o blant yn derbyn gofal dan orchymyn gofal.
- Mae nifer y plant sy'n derbyn gofal dan orchymyn gofal wedi cynyddu 11% rhwng 31 Mawrth 2017 a 31 Mawrth 2018.
- Ar 31 Mawrth 2018 y nifer o blant sy'n derbyn gofal am un cyfnod ar sail wirfoddol oedd 640 o'i gymharu â 1215 ar yr un dyddiad yn 2014, sef gostyngiad o 47%.
- Ar 1 Ionawr 2018, rhoddwyd 13% (851) o blant sy'n derbyn gofal gyda'u rhieni.
- Ar 1 Ionawr 2018 cafodd 1177 o blant eu lleoli o fewn gofalwyr sy'n berthnasau neu ofalwyr cysylltiedig.

Yr hyn a ddysgom

Gwelsom fod newidiadau mewn deddfwriaeth, yn cynnwys gofynion yr Amlinelliad Cyfraith Cyhoeddus, wedi effeithio'n sylweddol ar ymarfer a phroffil cyfreithiol y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal.

Nododd awdurdodau lleol gynnydd sylweddol yn nifer yr achosion gofal gydag 89% o blant dan orchymyn gofal ar 1 Ionawr 2018. Fodd bynnag, roedd y nifer gyffredinol o blant a oedd wedi'u lleoli gyda gofalwyr cysylltiedig neu gyda'u rhieni hefyd wedi mwy na threblu o 580 yn 2014/15 i 2028 ar 1 Ionawr 2018.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu trefniadau cadarn ar gyfer rhoi'r Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus (PLO) ar waith.

Gwelsom fod y trefniadau gorau yn rhoi cysondeb i blant a'u teuluoedd a thryloywder i'r broses o wneud penderfyniadau. Gwelsom fod ethos hawliau plant yn llywio ymarfer drwy gydol y broses cyn achos a bod ymrwymiad cryf i gadw plant o fewn y teulu lle y bo'n ddiogel gwneud hynny. Roedd tystiolaeth dda bod plant a phobl ifanc a oedd yn rhan o'r broses cyn achos yn llwyddo i osgoi'r llys.

Mae'r ffaith bod llysoedd Cymru yn derbyn ceisiadau, ynghyd â nifer y gorchmynion dilynol, yn rhoi hyder a chraffu annibynnol bod awdurdodau lleol yn cymhwyso'r trothwy risg o niwed yn briodol.

Roedd adegau pan wnaeth y farnwriaeth hysbysu awdurdodau lleol y dylid bod wedi cymryd camau diogelu yn gynt, er bod gwasanaethau gofal a chymorth yn cael eu darparu er mwyn lliniaru niwed. Yn aml, gwnaed hyn mewn perthynas â materion esgeuluso.

Nododd awdurdodau lleol fod y proffil cyfreithiol ar gyfer eu plant sy'n derbyn gofal yn newid. Ymysg y materion a nodwyd gan awdurdodau lleol roedd:

Egwyddor dim gorchymyn:

Roedd awdurdodau lleol yn hyderus bod y trothwy ar gyfer cymhwyso gorchmynion yn cael ei gymhwyso'n briodol gyda theuluoedd lle'r oedd diffyg newid digonol yn fynych neu'n barhaus. Fodd bynnag, codwyd pryderon bod newidiadau deddfwriaethol wedi arwain at golli'r egwyddor 'dim gorchymyn' yn gynyddol.

Lleoliadau teuluol: Yn flaenorol, roedd gwasanaethau plant wedi bod yn rhan o hwyluso trefniadau gofal teulu, gyda chytundeb y rhieni, byddai plant yn cael eu cefnogi i fyw mewn rhwydweithiau teuluol heb achosion cyfraith gyhoeddus neu ddod yn 'dderbyn gofal'.

Roedd y cynnydd mewn trefniadau teuluoedd maeth wedi arwain at brinder lleoliadau awdurdodau lleol oherwydd y ffocws ar gefnogi lleoliadau cysylltiedig a'r capasiti cyfyngedig o fewn y gwasanaeth maethu i ddiwallu'r anghenion hynny. Roedd hyn yn amlwg yn ein harolygiadau maethu. Roedd gwasanaethau maethu mewn sefyllfa well i reoli'r galw hwnnw pan oedd tîm penodol i gefnogi lleoliadau maethu teulu/cysylltiedig.

Lleoliadau gyda rhieni: Disgrifiodd awdurdodau lleol ymarfer newidiol mewn perthynas â'r nifer gynyddol o blant oedd yn derbyn gofal gan eu rhieni pan oedd y trothwy o niwed wedi'i gyrraedd, a bod Gorchymyn Gofal yn galluogi awdurdod lleol i rannu cyfrifoldeb rhieni â'r rhieni wedi'i roi. Ar adegau, roedd hyn yn mynd yn groes i gynllun gofal a chymorth arfaethedig y gwasanaethau plant ar ddechrau achos gofal cyfraith teulu.

Llety gwirfoddol (Adran 76):

Mae'r cynnydd sylweddol yn nifer y plant yng Nghymru sydd o dan orchymyn gofal wedi arwain at lai o ddefnydd o lety gwirfoddol. Mae'n ymddangos bod yr angen am sicrwydd cyhoeddus a disgwyliadau'r llysoedd wedi arwain fwyfwy at bolisi ac ymarfer de-facto bod achosion llys bob amser yn deilwng er mwyn sicrhau sefydlogrwydd. Mae'r awdurdodau lleol yn cymryd o ddifrif y pryderon a godwyd mewn

dyfarniadau llys diweddar mewn perthynas â methiannau trefniadau gwirfoddol, a'r angen i atal llithriant a sicrhau capasiti a chydsyniad hyddysg rhieni. Roedd yn gadarnhaol bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi sefydlu dulliau gyda'r llysoedd er mwyn sicrhau y craffwyd ar achosion wirfoddol o'r fath.

Fodd bynnag, ar gyfer rhai plant, a phobl ifanc yn benodol, gall llety gwirfoddol gyfyngu ar faint o amser a gaiff ei dreulio mewn gofal a gall fod yn wasanaeth gwerthfawr a dilyd. Er mwyn i awdurdodau lleol adfer y defnydd o'r trefniadau hyn mae angen iddynt fod yn hyderus bod ganddynt systemau cadarn ar waith er mwyn goruchwyllo'r nhw er mwyn goruchwyllo nhw a sicrhau nad ydynt yn agored i gael eu camddefnyddio.

Yr hyn a ddywedodd plant, pobl ifanc a gofalmwr wrthym am eu profiad o gymorth awdurdodau lleol

**Heblaw am yr awdurdod lleol
“I would have been in prison or on the streets”.**

“was happy that she was placed in care as she wouldn't feel safe”.

Er iddi nodi'n glir ei bod yn hapus ac yn fodlon iawn yn ei lleoliad presennol, disgrifiodd ei lleoliad cychwynnol fel “the worst experience of her life”.

“The best place was in foster care, but would have benefited from having been looked after sooner.”.

Rhan 2:

Digonolrwydd

Yr hyn a wyddom

- Fel yr oedd ar 1 Ionawr 2018, nododd awdurdodau lleol fod 1725 o ofalwyr maeth cymeradwy yn darparu 2817 o leoliadau maethu o gymharu â 1740 o ofalwyr a oedd yn darparu 2638 o leoliadau ar 31 Mawrth 2017. Mae hyn yn gynydd net o 179 o leoliadau.
- O'r 29% o blant sy'n byw y tu allan i'w hawdurdod lleol, roedd 15% mewn awdurdod cyfagos yng Nghymru, roedd 9% mewn awdurdod nad oedd yn gyfagos yng Nghymru ac roedd 5% yn byw y tu allan i Gymru.
- Fel yr oedd ar 1 Ionawr 2018, roedd y mwyafrif o'r rhai a oedd yn gadael gofal oed 16 neu 17 nid oedd yr awdurdod lleol yn derbyn gofal mwyach yn byw yn ardal yr awdurdod, gyda 32% o'r rhai a oedd yn gadael gofal wedi dychwelyd i fyw gyda'u teuluoedd biolegol, roedd 7% mewn llety â chymorth/lled-annibynnol: ac roedd 46% yn byw'n annibynnol.

Yr hyn a ddysgom

Roedd y diffyg amrywiaeth a dewis o leoliadau yn cael effaith sylweddol ar ganlyniadau'r plant a'u profiad o dderbyn gofal. Roedd hyn yn cynnwys diffyg cynllunio strategol a strategaethau recriwtio o fewn gwasanaethau maethu awdurdodau lleol er mwyn eu galluogi i ddarparu lleoliadau i blant a oedd yn cynnig dewis a sefydlogrwydd.

Roedd ansawdd y gydberthynas rhwng gofalwyr maeth a phlant yn ffactor allweddol mewn perthynas â chynaliadwyedd lleoliad. Roedd newid lleoliad yn arwain at ansefydlogrwydd sylweddol i blant a phobl ifanc. Dywedodd gofalwyr maeth wrthym y byddai gwell prosesau rhannu gwybodaeth cyn dechrau lleoliad wedi lleihau effaith newidiadau o'r fath ac wedi sicrhau prosesau baru fwy effeithiol.

Mae angen deall y cynnydd mewn galw yn well er mwyn llywio strategaethau

recriwtio ar gyfer y dyfodol yn llawn a theilwra rhaglenni hyfforddiant effeithiol.

Mae angen canolbwyntio mwy ar oruchwylio lleoliadau y tu allan i'r sir â'r hysbysiadau a wneir am y trefniadau hyn i banel. Roedd gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol baneli ar waith i ystyried lleoli plant y tu allan i ardal yr awdurdod a chydymffurfio â'r Gofal Rheoliadau Cynllunio, Lleoli ac Adolygu Achosion (Cymru) 2015. Mae Awdurdodau Lleol yn ymwybodol o'r angen i wella trefniadau panel ac roedd yn gweithio ar gweithio ar sail ranbarthol er mwyn gwella cysondeb. Mae hwn yn faes i'w wella ledled Cymru.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cael trafferth i gyflawni eu dyletswyddau digonolrwydd a diwallu anghenion eu poblogaeth gynyddol o blant sy'n derbyn gofal mewn perthynas â lleoliadau. Nododd y rhan fwyaf ohonynt fod diffyg

digonolrwydd o ran lleoliad yn effeithio ar y dewis o leoliadau sydd ar gael, gofal parhaol a'u sefydlogrwydd.

Fodd bynnag, roedd awdurdodau lleol mwy effeithiol wedi rhagweld yr angen cynyddol. Mae'r prinder lleoliadau priodol yn genedlaethol yn hysbys. Roedd y cynnydd yn nifer y plant a oedd yn derbyn gofal ac mewn costau lleoliadau wedi arwain at orwariant cyllidebol a ragwelwyd yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a chreodd hyn pwysau ar y gwasanaeth a'r gweithlu ledled Cymru.

Gallai pob awdurdod lleol ddangos y gwaith dadansoddi a'r camau pendant a gymerwyd ganddynt, yn cynnwys camau wedi'u targedu, er mwyn dod o hyd i deuluoedd i ddiwallu anghenion asesedig plant a hyrwyddo cynlluniau gofal parhaol. Fodd bynnag, mae hwn yn faes cynyddol heriol. Gwelsom, yn ein harolygiadau maethu, nad oedd digon o ffocws ar recriwtio gofalwyr maeth awdurdodau lleol nac ar ddod o hyd i leoliadau sy'n diwallu anghenion plant orau. Roedd hyn oherwydd galw cynyddol ar dimau maethu i gefnogi lleoliadau maethu teulu/cysylltiedig.

Rydym wedi gweld bod y prinder lleoliadau addas i ddiwallu anghenion asesedig plant a phobl ifanc wedi arwain at leoli rhai plant mewn lleoliadau anghofrestredig.

Mae'r diffyg digonolrwydd wedi bod yn amlwg iawn lle mae gan blant anghenion cymhleth iawn a lle mae angen lleoliad diogel.

Mae rhai plant a phobl ifanc wedi cael eu lleoli ymhell o'u cymuned mewn rhannau eraill o'r DU y tu allan i Gymru.

O ran recriwtio gofalwyr maeth, gwelsom wahaniaethau rhwng awdurdodau lleol

gyda rhai yn nodi eu bod yn dal i allu recriwtio gofalwyr maeth yn wahanol i'w partneriaid cyfagos. Gan fod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol eisoes wedi meincnodi eu cynlluniau talu a chymorth, nid oedd yn glir pam bod gwahaniaethau o'r fath yn bodoli.

Roedd yr awdurdodau lleol hynny oedd ag economi fwy cymysg o ddarpariaeth yn cynnwys lleoliadau preswyl a ddarparwyd yn uniongyrchol ac a gomisiynwyd, wedi dangos mwy o wydnwch wrth hyrwyddo'r dewis oedd ar gael.

Nodwyd bod mwy o awdurdodau lleol yn gweithio gyda'u hadrannau tai a pherchenogion eiddo preifat er mwyn ehangu'r amrywiaeth o ddarpariaeth breswyl a llety i'r rhai sy'n gadael gofal.

Roedd awdurdodau lleol yn gwneud mwy o waith yn rhanbarthol ac yn gydweithredol drwy sefydliadau fel Consortia Comisiynu Plant Cymru. Roedd gwaith hefyd yn mynd rhagddo drwy fyrddau partneriaeth rhanbarthol mewn perthynas â datblygu gwasanaethau cydweithredol ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth; yn aml gan ddefnyddio arian a gafwyd drwy'r Gronfa Gofal Integredig. Mae angen i fyrddau partneriaeth rhanbarthol gael sicrwydd bod y gwasanaethau a gomisiynir yn cael eu targedu i ddiwallu anghenion ac ateb y galw.

Yr effaith ar blant a phobl ifanc

Roedd canlyniadau plant a phobl ifanc wedi dioddef am nad oedd digon o amrywiaeth na dewis ar gael o ran lleoliadau. Roedd gan awdurdodau lleol drefniadau paru ar waith, ond gwelwyd llawer o enghreifftiau lle mai'r prif benderfynydd paru oedd argaeledd

lleoliad. Yn yr amgylchiadau hyn, ni all fod llawer o gyfle i blant a phobl ifanc ddylanwadu ar benderfyniadau am ble maent yn byw.

Yn ystod ein sesiynau ymgysylltu â phlant a phobl ifanc roeddent yn cyfeirio'n aml at y ffaith eu bod wedi gorfod newid lleoliad a bod hyn wedi achosi cryn ansefydlogrwydd iddynt. Er enghraifft, disgrifiodd un person ifanc ei fod wedi cael chwe lleoliad gwahanol mewn cyfnod o wyth mis. Dywedodd person ifanc arall wrthym ei fod wedi symud lleoliadau chwe gwaith mewn dwy flynedd ac ar bob achlysur nad oedd wedi cael gwybod enwau'r gofalmwr maeth ymlaen llaw, nac wedi cael gwybod unrhyw beth amdanynt. Nododd sawl un ei fod wedi gorfod symud ysgol hyd at bedair gwaith.

Dywedodd rhai gofalmwr maeth wrthym nad oeddent yn gwybod llawer am y bobl ifanc oedd ar fin byw gyda nhw. Gwnaethant gwestiynu addasrwydd ac effeithiolrwydd y broses paru. Gall paratodau annigonol fel hyn olygu nad eir i'r afael ag anghenion na risgiau yn effeithiol ac y gall lleoliadau gael eu dadsefydlogi yn gyflym iawn.

Gwelwyd bod prinder dewis lleoliadau i bobl ifanc yn eu harddegau yn benodol. Weithiau, roedd hyn yn golygu bod pobl ifanc yn cael eu lleoli, i ddechrau o leiaf, mewn lleoliadau nad oeddent yn gallu diwallu eu hanghenion emosiynol ac ymddygiadol oedd yn aml yn gymhleth,

ac mae hyn yn golygu bod perygl y bydd y lleoliad yn chwalu. Gwelwyd hefyd mai dyma oedd un o'r prif ffactorau i blant a phobl ifanc y mae angen lleoliadau arnynt mewn ardaloedd y tu allan i'r awdurdod lleol.

Roedd yn galonogol bod nifer y lleoliadau 'Pan Fydda i'n Barod' y manteisiwyd arnynt wedi cynyddu, gyda 189 o bobl ifanc yn cael cymorth ar 1 Ionawr 2018. Mae angen i'r opsiwn hwn barhau i gael ei hyrwyddo.

Nododd awdurdodau lleol y cynnydd a ragwelir yn nifer y rhai sy'n gadael gofal ac y bydd y cynnydd posibl yn y galw am leoliadau 'Pan Fydda i'n Barod' yn arwain at bwysau ariannol ychwanegol. Gwnaethant hefyd gydnabod y tensiwn sy'n gysylltiedig ag ateb y galw yn y dyfodol am leoliadau 'Pan Fydda i'n Barod' heb gael effaith andwyol ar y dewis o leoliadau ar gyfer plant eraill sy'n derbyn gofal. Mae angen i'r cynnydd posibl hwn mewn galw lywio rhaglenni recriwtio a hyfforddiant ar gyfer gofal maeth yn y dyfodol.

Gwelsom fod llawer o blant a phobl ifanc yn cael budd o fyw mewn lleoliadau diogel a sefydlog ac mewn llety sy'n diwallu eu hanghenion. Y gydberthynas â'u gofalmwr maeth oedd y ffactor pwysicaf sy'n dylanwadu ar farn plant a phobl ifanc am eu profiad o ofal o hyd. Gwelsom dystiolaeth o becynnau cymorth arloesol a phwrpasol i gynnal lleoliadau.

“I feel that I can talk to my foster carers and I really respect them”.


“My foster carers are brilliant and I look up to them as role models and learn from their behaviours and responses to everyday life”.

“My carers have ensured that I have everything that I need in life to succeed and I am very proud at being looked after by them and a part of their lives”.

Lleoliadau y tu allan i'r awdurdod lleol

Yr hyn a wyddom

Ffigur 3: Lleoliadau y tu allan i'r awdurdod lleol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru ar 1 Ionawr 2018



Ffynhonnell: Data hunanwerthuso awdurdodau lleol a gasglwyd, 1 Ionawr 2018

Yr hyn a ddysgom

Gwelsom fod y mwyafrif o blant a leolwyd mewn lleoliadau y tu allan i'r awdurdod yng Nghymru gyda'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cael paneli i ystyried y trefniadau hyn.

Roedd tystiolaeth i ddangos lle'r oedd paneli wedi'u sefydlu, gydag aelodau cyson ar lefel ddigon uchel i wneud penderfyniadau, eu bod yn dwyn ynghyd wybodaeth a dadansoddiad o anghenion plentyn a rhywfaint o fanylder a her o ran

yr angen i'r lleoliad fod y tu allan i'r sir. Roedd y dull panel hefyd yn golygu y gellir rhoi sicrwydd mewn perthynas â gallu lleoliad arfaethedig i ddiwallu anghenion addysgol, iechyd a chymdeithasol asesedig y plentyn.

Fodd bynnag, gwelsom fod gweithrediad y paneli yn amrywio ac yn aml yn cael ei danseilio gan faterion fel diffyg presenoldeb cyson, prinder gwybodaeth dda a ffocws gwael ar ansawdd a chanlyniadau. O'r ffigurau hysbysiadau yn

Nhabl 2 roedd canran y plant a gafodd eu hatgyfeirio at banel a oedd yn ystyried lleoliadau y tu allan i'r sir yn isel. Mae hyn yn faes yr oedd angen rhoi mwy o ffocws iddo.

Roedd y dystiolaeth y gwnaethom eu hadolygu yn awgrymu bod plant a gafodd eu lleoli y tu allan i'r sir yn cael yr un lefel o gyfranogiad, fwy neu lai, gan y

gwasanaethau plant â'r rhai oedd yn byw yn lleol. Roedd y gweithwyr cymdeithasol yn cynnal cyfrifoldeb, yn cynnal patrwm ymweld rheolaidd a hefyd yn defnyddio technolegau fel skype a negeseuon testun er mwyn cadw mewn cysylltiad. Roedd prosesau ymgysylltu a goruchwylio partneriaid eraill yn fwy amrywiol, oedd yn effeithio'n andwyol ar y plant.

Hysbysiadau o leoliadau y tu allan i'r ardal

Yr hyn a wyddom


Tabl 2: Canlyniadau'r paneli lleoliadau ar 1 Ionawr 2018

	Plant sy'n derbyn gofal a gafodd eu lleoli y tu allan i'r ardal yn y 12 mis diwethaf	Wedi cael eu hatgyfeirio at banel lleoli yn unol â chanllawiau cyn i'r lleoliad y tu allan i'r ardal gael ei wneud	Wedi cael eu dynodi'n lleoliadau brys ac wedi cael eu hatgyfeirio at y panel heb fod yn hwyrach na 25 diwrnod gwaith ar ôl i'r lleoliad gael ei wneud	Gofyniad heb ei fodloni
Cymru	712	29.9%	33.8%	22.7%

Ffynhonnell: Data hunanwerthuso awdurdodau lleol a gasglwyd, 1 Ionawr 2018

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn hyderus eu bod wedi cydymffurfio â gofynion a bod ganddynt brosesau gweinyddol ar waith er mwyn sicrhau bod hysbysiadau yn cael eu hanfon i'r awdurdodau oedd yn eu derbyn. Roeddent yn llai hyderus eu bod yn cael hysbysiadau yn rheolaidd gan awdurdodau lleol oedd yn lleoli plant yn eu sir.

Ffigur 4: Trefniadau hysbysu ar 1 Ionawr 2018



Ffynhonnell: Data hunanwerthuso awdurdodau lleol a gasglwyd, 1 Ionawr 2018

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cydnabod nad oedd eu trefniadau panel yn cynnwys cynrychiolwyr o awdurdodau lleoli ac nid oeddent ychwaith wedi cael eu gwahodd i gyfrannu at baneli awdurdodau lleol oedd yn derbyn.

Trefniadau ymarfer

Ystyriodd ein rhaglen waith brofiad plant a'u teuluoedd o dderbyn gofal o'r cyswllt cyntaf hyd at adael gofal. Mae'r adran hon yn crynhoi ein canfyddiadau ar adegau allweddol o'r daith hon.

Trefniadau mynediad a gwasanaethau ymyrryd yn gynnar

Yr hyn a ddysgom

Mae awdurdodau lleol wedi datblygu nifer o fodelau gwasanaeth newydd neu ddiwygiedig er mwyn gallu cydymffurfio ag Adran 17, Rhan 2 o Ddeddf 2014, mewn perthynas â Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth.

Ymhlith yr enghreifftiau roedd y canlynol:

- Adleoli gwasanaethau ymyrryd yn gynnar o fewn yr un gyfarwyddiaeth â gwasanaethau cymdeithasol, yn cynnwys mewn rhai achosion gyd-leoli staff cyngorau a staff trydydd sector neu staff asiantaethau partner (er enghraifft o dîm o amgylch y teulu teuluoedd yn gyntaf). Nod y model hwn yw sicrhau y caiff yr holl system ei llywodraethu yn yr un man.
- Lleoli gwasanaethau ymyrryd yn gynnar y tu allan i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol, gan ategu atebolrwydd corfforaethol ehangach ac anelu at fanteisio mewn ffordd fwy effeithiol ar yr amrywiaeth ehangaf o wasanaethau a gynigir ar draws ystod ehangach o gyfarwyddiaethau sy'n wynebu'r gymuned.

Ni welsom dystiolaeth oedd yn profi bod un trefniant yn well nag un arall,

gyda manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â phob model fel y nodir isod. Mae'n bwysig bod awdurdodau lleol yn agored am eu profiadau ac yn rhannu'r hyn maent yn ei ddysgu â'i gilydd.

Lleoliad o fewn Gwasanaethau Cymdeithasol Plant

Mewn rhai achosion, roedd y trefniadau hyn wedi atgyfnerthu unrhyw dueddiad a fodolai eisoes i ystyried mai cyfrifoldeb y gwasanaethau cymdeithasol yw ymyrryd yn bennaf. Roedd asiantaethau cyffredinol yn fwy tebygol o atgyfeirio at adran gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol cyn rhoi cynnig ar ymyriadau llai ymwthiol.

Roedd hyn yn cynyddu'r risg y byddai'r gwasanaethau cymdeithasol yn cael eu gorlethu â gormod o bryderon 'lefel is' a oedd yn amsugno llawer o adnoddau sgrinio ac asesu. Roedd hyn yn creu rhagor o risg gyda maint y galw yn golygu ei bod yn anodd blaenoriaethu atgyfeiriadau risg uwch.

Clywsom hefyd am dueddiad cynyddol i asiantaethau wneud atgyfeiriadau ar gyfer gwasanaethau ymyrryd yn gynnar, heb geisio cydsyniad teuluoedd ymlaen llaw.

Fodd bynnag, mae gan leoliad y swyddogaeth gwybodaeth, cyngor a chymorth o fewn y gwasanaethau plant y posibilrwydd o sicrhau unwaith y nodir bod plant unigol yn profi rhyw lefel o risg, y byddant yn fwy tebygol o gael y lefel gywir o sylw ar gam cynnar, yn hytrach na chael eu camgyfeirio at amrywiaeth ehangach o wasanaethau cymorth mwy cyffredinol.

Yn bwysig, roedd hefyd yn golygu bod gweithwyr proffesiynol â phrofiad o waith amddiffyn plant yn goruchwyllo'r broses o nodi risg ar y trothwy rhwng darparu cymorth teuluol neu ymyrryd drwy waith cymdeithasol mwy ffurfiol a natur ac amseru'r camau nesaf yn fwy effeithiol; roedd hyn ond yn wir pan nad oedd yr un gweithwyr proffesiynol yn cael eu llethu gan nifer o atgyfeiriadau anghymwys.

Lleoliad y tu allan i'r Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant

Mae Adran 17 Rhan 2 yn nodi'n glir bod y cyfrifoldeb am effeithiolrwydd gwasanaethau gwybodaeth, cyngor a chymorth yn cyd-fynd â dyletswyddau'r awdurdod lleol fel petai ac mae'n atgyfnerthu'r cyswllt rhwng atal a'i ddyletswyddau llesiant dihafal. I'r graddau hyn, mae'n ymddangos bod y dull gweithredu hwn yn galluogi'r awdurdod lleol i wneud y mwyaf o'i arlwy system gyfan:

“Rhaid iddo hyrwyddo ymyrryd yn gynnar ac atal i sicrhau bod pobl o bob oedran yn gallu cael eu helpu i gyflawni eu canlyniadau personol, ac archwilio opsiynau i ddiwallu eu hanghenion gofal a chymorth. Dylai'r gwasanaeth hwn gael ei ystyried fel gwasanaeth ataliol ynddo'i hun trwy ei ddarpariaeth gwybodaeth,

cyngor a chynhorthwy amserol o safon uchel.” (Para 297, Cod Ymarfer Rhan 2 Swyddogaethau Cyffredinol)

Roedd yn llai clir p'un a lwyddodd y trefniadau hyn i sicrhau bod yr amrywiaeth o wasanaethau presennol yn fwy hygyrch neu p'un a oeddent yn cynnig amrywiaeth o gymorth a oedd yn ddigyfnewid i raddau helaeth sy'n amrywiol iawn o ran atal y broses o uwchgyfeirio angen.

Roedd lleoliad y gwasanaeth ymyrryd yn gynnar y tu allan i'r gyfarwyddiaeth gwasanaethau cymdeithasol yn golygu bod unrhyw broses o liniaru'r angen am ofal a chymorth wedi'i reoli gan y gwasanaethau cymdeithasol yn dibynnu'n helaeth ar allu'r cyfarwyddiaethau i gydweithio.

Ni waeth sut y caiff y gwasanaethau gwybodaeth, cymorth a chyngor eu darparu, mae angen iddynt allu ymateb i newidiadau cymhleth a heriol teuluoedd a hyrwyddo sefyllfa lle y gall plant a phobl ifanc barhau i fyw yng nghartref eu teulu yn ddiogel ac yn gallu cyflawni eu canlyniadau llesiant personol. Mae angen amrywiaeth o becynnau cymorth cynaliadwy wedi'u teilwra er mwyn atal plant rhag gorfod derbyn gofal.

Ymyriadau cynnar a gwasanaethau gofal a chymorth wedi'u rheoli

Roedd pob awdurdod lleol yn gweithio er mwyn manteisio i'r eithaf ar y cyfle i hyrwyddo ymgysylltiad mwy amserol â theuluoedd pan na chafodd y trothwy ar gyfer gwasanaethau gofal a chymorth a arweinir gan waith cymdeithasol ei fodloni. Mae angen amser a buddsoddiad ar yr ymrwymiad i ymyrryd yn gynnar er mwyn iddo gyflawni'r uchelgais o leihau nifer y plant y mae angen gofal wedi'i reoli gan waith cymdeithasol arnynt.

Er bod awdurdodau lleol a'u partneriaid yn cydnabod pwysigrwydd rhaglenni i gynorthwyo plant a theuluoedd ar y camau cynharaf, (e.e. Teuluoedd yn Gyntaf), roedd gan rai ohonynt ddealltwriaeth gynhwysfawr a rennir o anghenion plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal neu sydd ar drothwy gofal.

Er bod yr ymgais i ddarparu gwasanaethau ymyrryd yn gynnar yn gadarnhaol, ni fydd dibynnu ar yr un amrywiaeth o wasanaethau sydd wedi bodoli ers peth amser, ni waeth sut y'u trefnwyd, yn darparu'r pecynnau cymorth cynaliadwy wedi'u teilwra sydd eu hangen i ddargyfeirio plant sy'n dod yn rhan o'r system ofal.

Y risg a nodwyd gennym oedd nad oedd digon o adnoddau yn canolbwyntio ar y broses o ddarparu gwasanaethau deallus ac ymatebol i'r teuluoedd hynny a oedd mewn perygl o gael eu cynnwys mewn systemau amddiffyn plant ac achosion cyfreithiol neu a oedd eisoes wedi'u cynnwys ynddynt. Nododd staff a phartneriaid fynediad cyfyngedig i adnoddau fel un o'r rhannau mwyaf heriol o'u gwaith. Roedd angen i awdurdodau lleol ddatblygu systemau er mwyn deall a gwerthuso'r gydberthynas rhwng angen asesedig, y gwasanaethau maent yn eu darparu, yr hyn sy'n gweithio a'r hyn sy'n gwneud gwahaniaeth i deuluoedd ar bob lefel o ymgysylltiad.

Mae angen gwell dealltwriaeth o effeithiolrwydd gwasanaethau atal ac ymyrryd yn gynnar ynghyd ag atgyfnerthu trefniadau cam i fyny a cham i lawr rhwng gwasanaethau ymyrryd yn gynnar a gofal a chymorth a arweinir gan waith cymdeithasol. Byddai o fudd i awdurdodau lleol fod yn fwy agored am eu heriau a rhannu'r hyn a ddysgwyd yn fwy effeithiol â'i gilydd.

Nodwyd bod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol mewn perthynas â'r rhyngwyneb rhwng ymyrryd yn gynnar a gofal a chymorth a arweinir gan waith cymdeithasol:

- **Parodrwydd y teulu i ymgysylltu â gwasanaethau ataliol** – mae angen rhoi cydsyniad ar gyfer gwasanaethau ymyrryd yn gynnar. Mae 'Yr hyn sy'n bwysig' i deuluoedd yn newidiol a hyd yn oed pan gytunir bod gwasanaethau yn ddefnyddiol a'u bod wedi cael eu cynnig, nid yw teuluoedd bob amser yn ymgysylltu â nhw nac yn parhau i ymwneud â nhw.
- **Rhwystrau i fanteisio ar wasanaethau ataliol** – gall trothwyon cymhwysedd gyfyngu ar fynediad i deuluoedd, hyd yn oed pan fydd ganddynt anghenion cymwys.
- **Cynaliadwyedd trefniadau cyllido yn y dyfodol** – Roedd gan nifer o wasanaethau ymyrryd yn gynnar restrau aros ac yn aml roedd y rhain yn arwain at oedi mewn gwaith comisiynu ac ailgomisiynu oherwydd dibyniaeth ar arian grant.
- **Pwysau ar y gwasanaeth** – Nododd rhai awdurdodau lleol fod pwysau ar y gwasanaeth yn golygu nad oedd teuluoedd y gallent fod wedi cael gwasanaethau cynnar unwaith yn gymwys mwyach a bod gwasanaethau ymyrryd yn gynnar yn mynd i'r afael fwyfwy ag anghenion teuluoedd sy'n agored i niwed.
- Mae'r systemau **trefniadau atgyfeirio** ar gyfer rheoli atgyfeiriadau at wasanaethau ymyrryd yn gynnar a gwasanaethau cymdeithasol i blant, yn cynnwys trefniadau cam i fyny a cham i lawr, yn amrywiol iawn ledled Cymru ac roedd awdurdodau lleol yn gweithio i nodi'r model mwyaf effeithiol.

Yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym

Mae cynorthwyo plant ar y cyfle cynharaf yn hanfodol er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Roedd y rhan fwyaf o'r plant a'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw o'r farn bod yr awdurdod lleol wedi'u cadw'n ddiogel, ond un o'r negeseuon allweddol oedd y byddent wedi cael budd o gael mwy o wybodaeth am sut i gadw eu hunain yn ddiogel o oedran cynharach er enghraifft am ddefnyddio cyffuriau.

Cydnabuwyd yn llawn fod gwasanaethau eirioli yn bwysig i lawer o blant a phobl ifanc i gynrychioli eu safbwyntiau ac adlewyrchu eu hamgylchiadau. Eglurodd pobl ifanc sut roedd eiriolaeth wedi eu helpu i deimlo'n fwy hyderus i leisio barn. Er enghraifft, defnyddiodd un person ifanc help eiriolwr er mwyn cyflwyno ei safbwynt am y posibilrwydd o newid ysgol a oedd yn groes i farn ei gweithiwr cymdeithasol.

Siaradodd y bobl ifanc yn gadarnhaol am wasanaethau, yn cynnwys cymorth trydydd sector a'u helpodd i ddod o hyd i lety, byw'n annibynnol a chael gwaith. Roedd gweithwyr cymdeithasol a chynorthwyr personol yn ffynhonnell gymorth bwysig pan wnaed camgymeriadau a phan nad oedd y cymorth hwn ar gael, gwelodd y rhai a oedd yn gadael gofal y gallent gael eu hynysu.

Diogelu

Yr hyn a ddysgom

Roedd gan awdurdodau lleol rai systemau gwybodaeth a oedd wedi'u datblygu'n dda i gefnogi'r broses o oruchwylio cydymffurfiaeth mewn perthynas â gweithdrefnau amddiffyn plant.

Nodwyd bod plant a phobl ifanc yn cael eu diogelu'n dda i raddau helaeth drwy gymhwyso trothwyon diogelu ac amddiffyn plant yn effeithiol. Yn yr dystiolaeth a adolygwyd gennym, ni welwyd bod unrhyw blentyn wedi'i adael mewn perygl uniongyrchol. Fodd bynnag, o'r arolygiadau maethu, gwelsom fod angen cynlluniau gofal diogel gwell ac asesiadau risg mwy cadarn a nodai risgiau ac a gysylltai'r rhain â chynlluniau a oedd yn ceisio eu lliniaru.

Roedd ymholiadau amddiffyn plant yn amserol ar y cyfan ac wedi'u llywio gan benderfyniadau a wnaed mewn cyfarfodydd strategaeth. Fodd bynnag, roedd ansawdd y trafodaethau strategaeth yn anghyson. Prin y caiff asiantaethau ehangach eu cynnwys mewn trafodaethau strategaeth, gan gyfyngu ar yr amrywiaeth o wybodaeth a drafodir.

Arweiniwyd ymholiadau amddiffyn plant gan weithwyr cymdeithasol oedd yn meddu ar y cymwysterau addas ond nid oeddent yn brofiadol bob amser. Mewn rhai amgylchiadau lle y cytunwyd i ymgymryd ag ymholiadau amddiffyn plant ar y cyd gyda'r heddlu, ni ddigwyddodd y rhain wedyn oerhwydd problemau capasiti. Roedd hyn yn golygu nad oedd teuluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth bob amser yn cael eu cefnogi'n llawn gan ymateb amlasiantaethol priodol. Ni wnaeth yr heddlu anfon swyddog â gwarant bob amser, ac ni wnaethant fynyachu cynadleddau amddiffyn plant yn gyson. Mae hyn yn golygu na chynhelir trafodaeth amlddisgyblaethol ehangach am risg ac na cheir cyfraniad ehangach i'r cynllun i ddiogelu plant a phobl ifanc yn y gynhadledd bob amser.

Roedd y canfyddiadau a'r penderfyniadau mewn perthynas â niwed sylweddol yn glir a gwnaethant arwain at gamau gweithredu, yn cynnwys camau gweithredu brys oedd eu hangen i amddiffyn plant a phobl fainc. Gwelsom dystiolaeth o beth gwaith amlasiantaethol effeithiol a chymorth dwys a ddarparwyd i deuluoedd a gofalwyr mewn achosion lle'r oedd risgiau o niwed sylweddol.

Gweithiai'r trefniadau ffurfiol er mwyn ystyried yr angen am gynllun gofal a chymorth amddiffyn plant yn dda ar y cyfan. Darparwyd adroddiadau mwy rheolaidd gan bob asiantaeth, ond byddai'n ddefnyddiol i'r rhain gael eu rhannu'n cyson â rhieni cyn y cyfarfod neu eu bod yn eu deall yn well.

Nododd y cynlluniau dilynol a welwyd y risgiau allweddol, y pryderon difrifol a'r cryfderau o fewn y rhwydwaith teulu a gofalwyr. Fodd bynnag, yn aml cawsant eu cofnodi'n wael ac maent yn bennaf yn seiliedig ar dasgau a gweithgareddau o hyd. Roedd diffyg amserlenni yn golygu nad oedd rhieni na gweithwyr proffesiynol yn glir ynghylch pryd yr oedd angen i bethau newid yn yr hirdymor.

Mae camau diogelu amlasiantaethol effeithiol wedi'u cefnogi gan wybodaeth amserol yn allweddol er mwyn cadw plant yn ddiogel. Gwelsom fod ansawdd y trafodaethau strategaeth yn anghyson, gyda chyfranogiad asiantaethau ehangach yn aml yn gyfyngedig. Ni chawsai adroddiadau proffesiynol a ddarparwyd i gynadleddau amddiffyn plant eu rhannu'n gyson â rhieni ymlaen llaw, a oedd yn cyfyngu ar eu gallu i gyfranogi'n llawn.

Cynhaliwyd cyfarfodydd grŵp craidd yn unol â'r canllawiau at ei gilydd, ond cafodd

y cynlluniau eu rhwystro gan nad oedd y gweithwyr proffesiynol yn mynychu'n rheolaidd. Ni chafodd y cyfarfodydd hyn eu cofnodi'n dda ac yn aml roedd diffyg eglurder ynghylch pa gamau gweithredu oedd eu hangen, erbyn pryd a pham. Nododd y gwaith o ansawdd gwell a welsom gynnydd clir yn erbyn canlyniadau mesuradwy.

Roedd nifer o awdurdodau lleol wedi cyflwyno Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol neu roeddent yn treialu un. Roedd y trefniadau strwythurol ar gyfer y rhain yn amrywio, ond y bwriad oedd gwella'r broses o rannu gwybodaeth a rheoli atgyfeiriadau, yn benodol y rhai oedd yn ymwneud â cham-drin domestig.

Roedd gan bob awdurdod lleol ganllawiau a phrotocolau cenedlaethol a lleol ar waith ar gyfer ymatebion amlasiantaethol i blant oedd yn wynebu risg y byddai rhywun yn camfanteisio'n rhywiol arnynt, y rhai a oedd yn arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol a'r rhai oedd yn mynd ar goll.

Roedd ymwybyddiaeth, sylw a gwaith sylweddol yn canolbwyntio ar nodi'r rhain. Roedd yr awdurdodau lleol yn ymwybodol o'r gydberthynas rhwng pa mor agored i niwed oedd plant a phobl ifanc; y penderfyniadau i blentyn dderbyn gofal; yr effaith ar sefydlogrwydd lleoliad a'r ffordd y mae plant sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi.

Er gwaethaf y gwelliannau i'r systemau ar gyfer lliniaru niwed neu niwed posibl, nid oedd y gydberthynas rhwng llwybrau rheoli risg a llwybrau amddiffyn plant wedi'u diffinio'n dda bob amser.

Er bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau lleol drefniadau i werthuso effeithiolrwydd y cynllun ar ddiogelwch a llesiant plentyn, yn aml nid oedd y rhain yn dangos

barn y plentyn neu'r person ifanc o'r cynllun, eu perchenogaeth o'r cynllun na'r gwahaniaeth a wnaeth iddynt yn eu barn nhw. Roedd yr asesiad a welwyd yn amserol ar y cyfan, ond nid oedd rhai ohonynt wedi'u cwblhau o fewn amserlenni plant.

Asesiadau

Yr hyn a ddysgom

Gwelsom rai asesiadau o ansawdd da oedd â ffocws cryf ar y plentyn a'i rwydweithiau cymdeithasol a theuluol. Fodd bynnag, roedd yr ansawdd cyffredinol yn amrywio ac roedd angen ei wella. Nid oedd bob amser yn amlwg o'r cofnodion a oedd y plant yn cael eu gweld ar eu pen eu hunain neu a oedd dealltwriaeth a rennir, pan oedd hyn yn briodol ar gyfer yr oedran.

Gwelsom fod lefel gymysg o ddealltwriaeth o asesiadau cymesur a chlywsom weithwyr cymdeithasol yn mynegi eu dryswch ynghylch yr angen i gwblhau pob elfen o'r asesiad. Roedd rhai yn cael trafferth â'r gofynion i nodi cryfderau pobl ac adeiladu arnynt a chydbwysu hyn â'r risgiau a ddaeth i'r amlwg neu'r risgiau ymddangosiadol, gan barhau i ganolbwyntio ar anghenion llesiant y plentyn.

Nid oedd llawer o'r asesiadau a adolygydd yn cynnwys dadansoddiad oedd yn ddigon clir, yn seiliedig ar ystyriaeth o hanes wedi'i gydbwysu yn erbyn cryfderau, heriau a risgiau presennol. Roedd hyn yn golygu nad oedd gweithwyr proffesiynol na theluoedd mewn sefyllfaoedd cymhleth bob amser yn deall y problemau.

Er ein bod o'r farn bod y penderfyniadau a wnaed yn briodol i'r anghenion, nid oedd yr asesiadau bob amser yn egluro'r

rhesymeg dros y camau gweithredu a argymhellwyd a phrin oedd y dystiolaeth a gofnodwyd o her gadarn gan y rheolwyr.

Byddai mwy o ymgysylltiad â theluoedd fel rhan o'r broses asesu a gwell eglurder o'r dadansoddiad o risg ac angen yn helpu plant, rhieni a gofalwyr i ddeall yn well.

Nid oedd asesiadau bob amser yn cael eu hadolygu'n briodol pan fyddai amgylchiadau'n newid. Lle'r oedd hyn yn digwydd, yn aml roedd yr asesiadau a welwyd yn ailadrodd problemau o'r gorffennol, yn hytrach nag ystyried effaith y wybodaeth newydd.

Pan oedd awdurdodau lleol yn defnyddio model gwasanaeth cyfan i ategu ymarfer, roedd hyn yn helpu i gefnogi dealltwriaeth sefydliadol a rennir o gryfderau a risgiau. Gellid atgyfnerthu llais y plentyn mewn asesiadau er mwyn sicrhau bod cynlluniau yn nodi'r hyn sy'n bwysig i blant a phobl ifanc.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn dal i weithio i drosi eu dealltwriaeth o angen asenedig yn ganlyniadau a phontio'r bwlch rhwng asesu a chynllunio gofal a chymorth.

Ar y cyfan, mae angen atgyfnerthu'r trefniadau cam i fyny a cham i lawr rhwng ymyrryd yn gynnar a gofal a chymorth a arweinir gan waith cymdeithasol a'u hadolygu'n rheolaidd.

Nid oedd asesiadau ar gyfer cynlluniau llwybr yn amserol bob amser ac nid oeddent yn ymgysylltu â phobl ifanc yn gyson nac yn effeithiol. Mae hwn yn gyfle a gollir i sicrhau bod y rhai sy'n gadael gofal yn deall eu hawliau a'r ffordd y mae angen iddynt gael eu cynorthwyo er mwyn byw'n annibynnol.

Cynllunio gofal

Yr hyn a ddysgom

Gwelsom dystiolaeth o ymyriadau helaeth yn aml yn cael eu cyflwyno er mwyn ceisio cadw plant a phobl ifanc yn ddiogel o fewn eu teuluoedd. Dangosodd y penderfyniadau a wnaed yn y lleiafrif hanes o gyfleoedd cynnar a gollwyd i ymyrryd i wella amgylchiadau plant. Mewn achosion eraill, yn enwedig y rhai sy'n ymwneud ag esgeulustod, dylid bod wedi ymyrryd yn gynt.

Mae defnydd awdurdodau lleol o wybodaeth perfformiad wedi helpu'n gynyddol i sicrhau bod gofal a chymorth neu gynlluniau llwybr amserol ar waith ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'u bod yn cael eu hadolygu'n systemataidd.

Er y gwelwyd bod rhai cynlluniau gofal a chymorth a chynlluniau llwybr o ansawdd da yn myfyrio ar waith uniongyrchol a wnaed gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd, roedd yr ansawdd cyffredinol yn anghyson. Mae angen atgyfnerthu cynlluniau gofal a chymorth er mwyn canolbwyntio ar ganlyniadau llesiant plant a phobl ifanc a phennu nodau ar gyfer cyflwyno'r rhain. Yn aml, roedd cynlluniau gofal a chymorth yn canolbwyntio ar dasgau a gweithgareddau lle nad oedd yr amserlenni'n glir.

Nid oedd bob amser yn amlwg bod cynlluniau yn deillio o asesiad cyfredol. Er enghraifft, er bod y cynlluniau gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal fel arfer yn cael eu diweddarau'n rheolaidd ar ôl adolygiad plant sy'n derbyn gofal, anaml yr oedd wedi'i lywio gan asesiad a oedd wedi'i ddiweddarau.

Yn aml, nid oedd digon o dystiolaeth o gynlluniau a oedd wedi'u llunio ar y cyd â theuluoedd. Roedd llawer o'r cynlluniau a welsom yn fformiwlâig ac nid oeddent yn canolbwyntio ar ganlyniadau. Gwelsom nad oedd fformatau cynlluniau gofal presennol yn cynorthwyo gweithwyr cymdeithasol i ddangos tystiolaeth o'r cynllun cyffredinol na'r nodau hirdymor ar gyfer y plentyn. Mae hyn yn ei gwneud yn anodd i blant a phobl ifanc a'u teuluoedd ddeall eu cynnydd a'u 'taith tua'r dyfodol'.

Mae'r cyfaint bresennol o blant hyn sy'n derbyn gofal yn golygu y bydd cynnydd sylweddol yn nifer y rhai sy'n gadael gofal dros y ddwy flynedd nesaf. Gwelsom welliannau mewn perfformiad o ran cynllunio llwybr gyda chynllun llwybr ar waith ar gyfer mwy na 90% o'r rhai sy'n gadael gofal. Fodd bynnag, nid oedd y cynlluniau llwybr a welwyd o ansawdd digon da yn gyson. Yn aml, roedd ansawdd yr asesiad a'r cynlluniau dilynol yn dibynnu ar brofiad gweithwyr cymdeithas a dealltwriaeth o wasanaethau gadael gofal.

Roedd uwch reolwyr mewn rhai awdurdodau lleol yn ailgynllunio'r trefniadau am eu bod eisoes wedi nodi bod cynghorwyr personol yn cael eu cyflwyno yn rhy hwyr ac nad oedd hyn yn helpu pobl ifanc i feithrin cydberthnasau cychwynol da.

Mae angen i strategaethau gweithlu a chomisiynu awdurdodau lleol gael eu llywio'n well gan y proffil a ragwelir ar gyfer plant a phobl ifanc sy'n gadael gofal er mwyn sicrhau bod ganddynt ddigon o gapasiti o ran gwaith cymdeithasol a chynghorwyr personol nawr ac yn y dyfodol.

Gwelsom arfer gorau mewn timau 14 a mwy neu dimau arbenigol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal, a gynigiai wasanaeth cyfannol yn cynnwys paratoi ar gyfer gadael gofal. Yn aml, gwelwyd bod gan y timau hyn gysylltiadau cryfach â sefydliadau cymunedol, a allai roi cymorth tymor hwy i'r person ifanc o bosibl.

Yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym

Unwaith y byddant mewn gofal, mae llawer o blant a phobl ifanc yn cael cymorth amserol gan eu gofalwyr a'u gweithwyr cymdeithasol. Disgrifiodd rhai plant brofiadau cadarnhaol, er enghraifft gyda gofalwyr maeth a oedd yn eu hystyried yn rhan o deulu ac yn eu helpu i deimlo bod rhywun yn 'gwrando arnynt'.

Nid oedd rhai pobl ifanc o'r farn bod eu cynlluniau llwybr yn ddogfen ddefnyddiol. Er enghraifft, nid oedd gan rhai pobl ifanc farn glir o'i anghenion o ran ei iechyd emosiynol a chorfforol na'i hanes iechyd.

Er gwaethaf rhai dulliau gweithredu cadarnhaol iawn mewn perthynas â gadael gofal a'r ymdrechion gwirioneddol a wnaed gan weithwyr cymdeithasol a chynghorwyr personol i sicrhau cyfnodau pontio hwylus, dywedodd llawer o'r rhai sy'n gadael gofal wrthym, er nad oedd unrhyw beth wedi newid mewn gwirionedd, eu bod yn teimlo'r pwysau sy'n gysylltiedig â gadael gofal pan maent yn 16 oed. Nododd pobl ifanc fel plentyn sy'n derbyn gofal, 'you're not being able to make decisions because it's all about being safe' a'u bod yn teimlo'n 'over protected'. I'r gwrthwyneb, fel rhywun sy'n gadael gofal, '[it is] all about being independent' a gwneud penderfyniadau yn cynnwys 'where you are going to live'.

Er iddynt gydnabod bod eu cymheiriaid nad oeddent yn derbyn gofal hefyd yn edrych i'r dyfodol, nodwyd ei bod yn 'more intense' i'r sawl a oedd wedi bod mewn gofal. Er enghraifft, gan fod yr angen i gwblhau cynlluniau llwybr wedi gwneud iddo deimlo'n fwy dybryd ac 'was just more pressure'. Dyna pryd roeddent hefyd yn paratoi ar gyfer eu harholiadau ac, ar gyfer rhai pobl ifanc, roedd hyn yn cyd-fynd â phroses o drosglwyddo i weithiwr cymdeithasol newydd a chyflwyno cynghorydd personol. Yn yr un modd, disgrifiodd y rhai hyn a oedd yn gadael gofal eu bod yn teimlo'n 'unprepared to talk about leaving care and unprepared to leave'.

Adolygiadau o gynlluniau gofal a chymorth plant sy'n derbyn gofal

Yr hyn a ddysgom

Roedd yr adolygiadau'n amserol a chafodd plant eu hannog yn gyffredinol i gyfrannu at eu hadolygiadau a'u cefnogi i fod yn bresennol ynddynt. Er bod gan y rhan fwyaf o awdurdodau systemau sicrhau ansawdd ar waith, nid oedd rhai ohonynt yn mynd ati'n rhagweithiol i fonitro presenoldeb plant.

Cynigiwyd gwasanaeth eirioli yn rhagweithiol ac roedd wedi'i gofnodi'n glir yng nghofnod yr adolygiad. Roedd gan bob awdurdod lleol wasanaethau eirioli ffurfiol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Roedd y gwasanaethau hyn a gomisiynwyd yn seiliedig ar broblemau yn bennaf ac roeddent yn dibynnu ar y ffaith y byddai'r plant a'r bobl ifanc yn optio i mewn. Mae hyn yn golygu nad oedd rhai plant a allai gael budd o'r gwasanaeth yn cael eu cynrychioli'n annibynnol mewn cyfarfodydd gwneud penderfyniadau.

Yn aml, roedd y templedi adolygu a welsom yn golygu bod angen ailnodi gwybodaeth yn cynnwys ffocws parhaus ar yr hyn a oedd wedi achosi i'r plentyn orfod derbyn gofal. Nid oedd y cofnod bob amser yn nodi'r cynnydd a wnaed, y canlyniadau a gyflawnwyd na'r cynllun tymor hwy.

Gwelsom fod barn y plant a'r teuluoedd yn aml wedi'i chofnodi'n wael ac nid oedd bob amser yn glir sut y gwnaed penderfyniadau na ph'un a oedd pawb dan sylw, yn cynnwys y plentyn/person ifanc, yn cytuno. Yn aml, prin oedd y dystiolaeth a welwyd ynghylch i ba raddau roedd y plant a'r bobl ifanc o'r farn bod eu cynlluniau yn 'gweithio iddyn nhw'.

Roedd awdurdodau lleol yn hyderus bod eu gwasanaethau adolygu annibynnol yn cydymffurfio â'r canllawiau a llwyddodd trefniadau'r swyddog adolygu annibynnol i barhau i fod yn annibynnol ar y gwasanaethau gweithredol.

Mae'r cynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal; nifer yr adolygiadau sy'n deillio o newidiadau heb eu cynllunio mewn lleoliadau a nifer y plant sydd wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdod wedi effeithio ar lwythi gwaith ac wedi effeithio ar gapasiti'r swyddogion adolygu annibynnol, ac nid yw Swyddogion Adolygu Annibynnol yn gweld pob plentyn nac yn siarad ag ef cyn ei adolygiad. Fodd bynnag, mae ymdrechion cryf i sicrhau parhad ar gyfer plant drwy sicrhau eu bod yn cadw'r un swyddog adolygu annibynnol. Yn ffurflen data hunanwerthuso'r awdurdodau lleol, nodwyd bod mwy nag 80% o swyddogion adolygu annibynnol wedi cadeirio adolygiad blaenorol y plentyn.

Roedd rôl y swyddogion adolygu annibynnol mewn perthynas ag

adolygiadau o gynlluniau'r rhai sy'n gadael gofal yn anghyson ac yn aml yn cael ei phennu yn ôl capasiti'r tîm. Gwelwyd gwahaniaethau sylweddol ledled Cymru mewn perthynas â dyletswydd ehangach y Swyddogion Adolygu Annibynnol i fonitro perfformiad cyffredinol awdurdodau lleol fel rhiant corfforaethol. Er bod y rôl hon yn cael ei gwerthfawrogi gan uwch swyddogion, mae angen gwelliant er mwyn sicrhau bod gan Swyddogion Adolygu Annibynnol y capasiti a'r mandad i gyflawni'r swyddogaeth hon. Roedd ymarfer y Swyddogion Adolygu Annibynnol mewn perthynas ag adolygiadau o gynlluniau'r rhai sy'n gadael gofal yn anghyson ac yn aml yn cael ei bennu yn ôl capasiti'r tîm.

Gwelsom dystiolaeth fwyfwy bod swyddogion adolygu annibynnol yn monitro plant a phobl ifanc rhwng adolygiadau ac roedd llawer ohonynt yn archwilio cydymffurfiaeth ac ansawdd yn rheolaidd, er enghraifft mewn perthynas ag ymweliadau statudol. Roedd y rhan fwyaf o'r Swyddogion Adolygu Annibynnol yn hyderus y gallent uwchgyfeirio unrhyw bryderon am lesiant plentyn neu ddiffyg cynnydd i reolwyr tîm ac i uwch swyddogion yn ôl yr angen ac y byddai problemau yn cael eu cymryd o ddifrif.

Yr hyn a ddywedodd plant, pobl ifanc a gofalwyr wrthym

Dywedodd rhai o'r plant a'r bobl ifanc y gwnaethom siarad â nhw wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi ymddieithrio o'r broses adolygu gofal. Ychwanegwyd at hyn am nad oeddent yn teimlo y gallent ddylanwadu ar benderfyniadau. Er enghraifft, dywedodd sawl plentyn eu bod yn teimlo'n fwy gwahanol am fod eu hadolygiadau'n gorfod cael eu cynnal yn yr ysgol er mwyn i'r athro allu bod yn bresennol.

Rhoddodd rhai adborth cadarnhaol iawn am eu hadolygiadau a rôl y swyddog adolygu annibynnol. Er enghraifft, disgrifiodd person ifanc y ffaith bod ei hadolygiad nesaf ar y gweill ac y gallai benderfynu pa rai o'u gweithwyr proffesiynol a allai fod yn bresennol. Siaradodd eraill am gadeirio eu cyfarfod a chael trafodaethau oedd yn berthnasol ac y gallent gyfrannu atynt.

Roedd llawer o bobl ifanc o'r farn bod y broses adolygu yn ddiflas ac nad oedd yn eu helpu i siarad am faterion personol iawn. Felly, gwnaethant ddewis peidio ag ymgysylltu na mynd i gyfarfodydd adolygu. Roedd llawer o ofalwyr o'r farn nad oedd cyfarfodydd adolygu yn cynrychioli dymuniadau na theimladau'r plentyn yn ddigonol. Disgrifiodd plant a phobl ifanc arferion amrywiol mewn perthynas â'u cyswllt â'r swyddog adolygu annibynnol i gael gwybod am eu dymuniadau a'u

teimladau. Nid oedd rhai pobl ifanc yn gwybod a oedd ganddynt gynllun gofal a chymorth a dywedodd eraill na ddatblygwyd elfennau pwysig o'r cynllun.

Disgrifiodd rhai gofalwyr maeth ymarfer gwaith cymdeithasol meddylgar, gydag amser yn cael ei gymryd i feithrin cydberthnasau â phlant a gwrando ar eu safbwyntiau. Disgrifiodd gofalwyr maeth eraill y ffaith bod gweithwyr cymdeithasol yn gorfod cywasgu'r gwaith o baratoi ar gyfer cyfarfodydd y diwrnod cyn cyfarfod, a bod hyn yn arwain at yr ymdeimlad o roi tic mewn blwch ac nad oedd llawer o ddyfnder ystyrion iddo. Mae dymuniadau a theimladau plant yn debygol o fod wedi'u cynrychioli'n wael pan fydd yr ymarfer dan straen. Dywedodd un gofalwr wrthym nad oedd cynllun addysg personol ar waith flwyddyn ar ôl i blentyn symud i fyw ati.

Yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym am gyfarfodydd/
adolygiadau

**“It feels like I am a
bystander – I refuse
to attend them”.**

“...boring...”

“...intimidating...”

**“Too many
personal questions
were asked”.**

**“...able to chair
own reviews”**

“...listened to...”

Partneriaethau

Yr hyn a ddysgom

Gwelsom fod gwelliant sylweddol o ran y gwerthfawrogiad corfforaethol o heriau'r gwasanaethau cymdeithasol i blant ond yn aml roedd y baich cyflenwi yn erbyn ymyrryd yn gynnar a swyddogaethau rhianta corfforaethol wedi'i gyfyngu gormod i weithgareddau a rôl y gwasanaethau cymdeithasol i blant.

Er y deallir bod lleihau'r angen am ofal a chymorth a arweinir gan waith cymdeithasol gan y gwasanaethau cymdeithasol i blant yn dibynnu ar allu pob cyfarwyddiaeth cyngor a phartner i gydweithio, roedd y graddau yr oedd hyn wedi'i drosi'n gyfraniadau neu'n gamau gweithredu go iawn i ddarparu gwell gwasanaeth ymyrryd yn gynnar a chanlyniadau, yn cynnwys ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal, yn dal i fod yn amrywiol iawn.

Clywsom am gydb berthnasau gwaith da ag asiantaethau partner ar lefel weithredol. Gwelsom ddarlun cymysg o ran gweithio ar y cyd ag asiantaethau partner ar lefel strategol, ac roedd cryn dipyn o ddatblygu pellach i sicrhau gwaith partneriaeth amlasiantaethol ac 'ymarfer cydgysylltiedig' er mwyn sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant a theuluoedd.

Mewn rhai awdurdodau lleol, ni lwyddodd ymgysylltu partneriaid â chyflwyniad Deddf 2014 at ddealltwriaeth a rennir o feini prawf trothwy ac nid oedd yr atgyfeiriadau gan bartneriaid o ansawdd digon cyson i alluogi gwasanaethau cymdeithasol i wneud penderfyniadau cynnar na hyddysg.

Cydnabu awdurdodau lleol nad oeddent wedi ystyried lleisiau plant, pobl ifanc na'u teuluoedd eto wrth gynllunio gwasanaethau. Mae hyn yn hanfodol os ydynt am ddeall y gwahaniaeth y mae help, gofal a chymorth a/neu ddiogelwch yn ei wneud i blant a theuluoedd.

Partneriaeth â gwasanaethau iechyd

Nododd awdurdodau lleol fod 86% o'r cynlluniau yn cynnwys elfen iechyd amserol a bod anghenion iechyd sylfaenol plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi'n dda yn gyffredinol gan y nyrs plant sy'n derbyn gofal, a thrwy nyrs ysgol.

Fodd bynnag, roedd pryderon o hyd ynghylch diffyg argaeledd gwasanaethau cymorth emosiynol a therapiwtig, yn arbennig mewn perthynas â Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS). Roedd hyn er gwaethaf y gydnabyddiaeth a rennir bod y mwyafrif o'r plant sydd mewn gofal am gyfnodau hir wedi cael profiadau niweidiol mewn plentyndod sydd wedi effeithio ar eu llesiant emosiynol. O ganlyniad, mae llawer o awdurdodau lleol wedi datblygu eu gwasanaethau cymorth mewnol eu hunain er mwyn sicrhau y gallai plant a phobl ifanc gael help amserol. Mae hyn yn nodi'r diffygion mewn gwaith partneriaeth ac mae'n arwain at oblygiadau ariannol i'r gwasanaethau plant ar adeg lle ceir cyllidebau sy'n crebachu.

Mae angen gwneud rhagor o waith gyda byrddau iechyd ar frys er mwyn datblygu asesiad clir o blant sy'n derbyn gofal ac anghenion iechyd y rhai sy'n gadael gofal yn cynnwys eu hanghenion iechyd meddwl. Mae angen i hyn lywio llwybrau mynediad clir at amrywiaeth briodol o wasanaethau a all ddiwallu anghenion a nodwyd.

Nodwyd enghreifftiau da o her briodol gan y Swyddogion Adolygu Annibynnol lle nad oedd cynlluniau wedi'u datblygu'n ddigonol. Fodd bynnag, mewn rhai enghreifftiau, deilliodd y rhwystrau a nodwyd o fylchau hysbys mewn gwasanaethau, er enghraifft gwasanaethau llesiant emosiynol i blant. Roedd cryn rwystredigaeth ynghylch y graddau yr oedd Swyddogion Adolygu Annibynnol o'r farn y gallent ddylanwadu ar gyfraniad partneriaid i'r cynllun gofal a chymorth y cytunwyd arno. Mae angen i'r materion hyn barhau i gael eu huwchgyfeirio at uwch reolwyr a'r bwrdd rhianta corfforaethol.

Nodwyd materion mewn perthynas â'r diffyg llwybr clir i'r rhai sy'n gadael gofal sydd ag anghenion iechyd parhaus. Yn aml, roedd pobl ifanc yr oedd angen gwasanaethau therapiwtig arnynt yn cael gwasanaethau o ansawdd gwael.

Partneriaeth â gwasanaethau addysg

Mae'r awdurdodau lleol wedi parhau i roi sylw i gyflawniad addysgol plant sy'n derbyn gofal. Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi buddsoddi mewn staff arbenigol o fewn eu cyfarwyddiaethau addysgol er mwyn hyrwyddo anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal. Fodd bynnag, nodwyd mewn rhai awdurdodau lleol

fod hyn wedi colli ei effaith ac nad oedd y swyddi gwag hyn bob amser yn cael eu llenwi.

Mae'r perfformiad mewn perthynas â chynlluniau addysg personol yn wael ac mae'n faes y dylid gwella arno gan mai dim ond 56% o'r cynlluniau oedd yn cynnwys cynlluniau addysg personol fel rhan hanfodol ohonynt ar 1 Ionawr 2018. Mae hyn yn golygu ei bod yn anodd asesu p'un a yw anghenion addysgol plant yn cael eu diwallu ac felly mae'n llai amlwg beth ddylai ddigwydd er mwyn sicrhau eu bod yn cyflawni yn unol â'u cymheiriaid.

Nid oedd pwyslais cryf ar ddyheadau bob amser na'r ffordd y caiff plant eu hannog gan ddull cefnogol cyffredinol o ddysgu. Cydnabuwyd yn gyson fod angen rhoi blaenoriaeth i'r angen i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant. Fodd bynnag, er bod dyheadau yn uchel, mae'r cynnydd a wnaed yn rhy araf ac mae angen i awdurdodau lleol fel rhieni corfforaethol wneud mwy.

Partneriaeth â gwasanaethau tai

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gweithio i atgyfnerthu'r gydbertynas rhwng gwasanaethau plant a thai. Roedd rhai wedi datblygu strategaethau digartrefedd pobl ifanc a phrotocolau ar gyfer asesu pobl ifanc 16 a 17 oed. Yn aml, roedd hyn yn gysylltiedig â chynnydd mewn galw.

Roedd nifer o awdurdodau lleol wedi creu rôl swyddog llety neu swyddog cyswllt, wedi'i hariannu drwy gyllid Cefnogi Pobl, i wella'r llwybrau i dai a'r opsiynau sydd ar gael i bobl ifanc.

Roedd cydberthnasau gwaith cryfach ag adrannau tai a cholegau lleol yn effeithiol o ran sicrhau'r lefel ychwanegol o gymorth sydd ei hangen ar rai pobl ifanc i lwyddo i fyw'n annibynnol heb unrhyw gymorth teuluol.

Mae nifer y cyfleoedd a gaiff y rhai sy'n gadael gofal ar gyfer profiad gwaith a chynlluniau a noddir gan y cyngor yn amrywio'n sylweddol ledled Cymru ond maent yn gyfyngedig. Mae'n siom nad yw'r llwyddiant cynnar o ran noddi lleoliadau gwaith awdurdodau lleol ar gyfer y rhai sy'n gadael gofal yn cael ei ddefnyddio i ateb y galw a ragwelir mewn niferoedd. Nid oedd pob awdurdod lleol yn casglu data ar ba gynllun yr oedd pobl ifanc yn gweithio arno. Nid oedd gan

rai awdurdodau lleol unrhyw gynlluniau noddi. Cafodd gallu rhai awdurdodau lleol i ddiwallu anghenion y rhai sy'n gadael gofal ei ddylanwadu gan ansawdd y wybodaeth a rennir a phroffil data a rennir pobl ifanc sy'n pontio i adael gofal. Hefyd yn ôl argaeledd llety priodol yn yr ardaloedd lle roeddent am fyw er mwyn cynnal eu cydberthnasau ochr yn ochr â rhwydweithiau addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.


Er enghraifft, er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi atgyfnerthu eu strategaethau digartrefedd ar gyfer pobl ifanc, nid oedd y rhain yn adlewyrchu dealltwriaeth a rennir o'r cynnydd a ragwelir yn nifer y rhai sy'n gadael gofal a all gyfrannu at hyn.

Rhan 5:

Sefydlogrwydd

Yr hyn a wyddom

Ffigur 5: Tuedd tair blynedd o ran plant sy'n derbyn gofal yn ôl nifer y lleoliadau sy'n dangos amrywioldeb cyfyngedig



Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru>, Lleoliadau plant sy'n derbyn gofal yn ôl awdurdod lleol, 31 Mawrth 2018

Dangoswyd y proffil hunan-werthusiad:

- Bod nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal o dan orchymyn gofal.
- Y cynnydd yn y defnydd o ofal teuluol gyda 74% (4715) o blant yn cael eu lleoli mewn lleoliadau gofal maeth.
- Nodwyd amrywiaeth sylweddol yn y defnydd o ddarparwyr annibynnol ar draws awdurdodau lleol yn amrywio o 2% i 47%.

Nododd y data hunanwerthuso mai nifer fach (43) o blant a oedd wedi'u lleoli mewn ysgolion arbennig preswyl ar y cyfan. Roedd 18 o blant mewn unedau diogel, lle'r oedd un plentyn o dan 13 oed. Roedd 5% o'r plant wedi'u lleoli mewn cartrefi plant cofrestredig, sef cyfanswm o 327, ac yn yr awdurdodau lleol oedd â'u cartrefi cofrestredig eu hunain roedd y niferoedd uchaf.

Yr hyn a ddysgom

Gwelsom welliant mewn ymarfer gyda'r rhan fwyaf o blant yn cael eu gweld yn fwy rheolaidd gan weithiwr cymdeithasol. Fodd bynnag, oherwydd y swyddi gwag a'r llwythi gwaith mewn rhai awdurdodau, nid oedd plant a phobl ifanc bob amser yn cael eu gweld gan eu gweithiwr dynodedig ac roedd rhai plant a phobl ifanc yn parhau i orfod wynebu gormod o newidiadau. Mae ansawdd y gydberthynas rhwng plant a phobl ifanc a'u gweithiwr cymdeithasol/cynghorydd personol/gweithwyr cymorth yn allweddol i sicrhau canlyniadau cadarnhaol. Yn aml, mae plant a phobl ifanc yn wynebu ansefydlogrwydd oherwydd amhariaeth yn y cydberthnasau allweddol hyn. Mae pwysau ar y gweithlu wedi cael effaith sylweddol ar sicrhau y gall pob plentyn a pherson ifanc feithrin cydberthynas llawn ymddiriedaeth o ansawdd dda â gweithiwr cymdeithasol heb unrhyw amhariaeth.

Nododd yr awdurdodau lleol hynny a welodd gynnydd yn eu defnydd o leoliadau darparwyr annibynnol fod hyn yn deillio naill ai o gynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal neu oherwydd cymhlethdod yr angen. Fel arfer, mae'r defnydd o leoliadau maethu annibynnol yn ddrutach na lleoliadau maeth awdurdodau lleol.

Er mai lleoli plant yn eu rhwydweithiau teuluol oedd y man cychwyn bob amser i awdurdodau lleol, roedd nifer y plant a phobl ifanc sy'n cael eu lleoli gyda gofalwyr cysylltiedig neu eu rhieni wedi mwy na threblu, gan gynyddu o 580 yn 2014/15 i 2028 ar 1 Ionawr 2018.

Nododd awdurdodau lleol, er bod y defnydd cynyddol o ofalwyr cysylltiedig yn gadarnhaol, ei bod yn anoddach cynllunio i asesu a chefnogi lleoliadau o'r fath. Roedd nifer yr asesiadau a phwysau o ran amserlenni a oedd yn gysylltiedig ag achosion llys wedi effeithio ar lwyth gwaith timau dod o hyd i gartrefi.

Nododd llawer o awdurdodau lleol fod asesiadau gofalwyr cysylltiedig wedi lleihau eu gallu i recriwtio a chynnal asesiadau gofalwyr maeth prif ffrwd. Mae cymorth ar gyfer gofalwyr cysylltiedig hefyd yn hanfodol ac roedd awdurdodau lleol yn ceisio datblygu mwy o hyfforddiant pwrpasol i ddiwallu eu hanghenion.

Yr hyn a ddywedodd plant a gofalwyr wrthym

Bu un person ifanc yn myfyrio ar ei brofiad mewn gofal maeth a'r nifer o weithiau y bu'n rhaid iddo symud at ofalwyr gwahanol. Bu'n ystyried a allai gweithwyr cymdeithasol fod wedi gweithio drwy'r anawsterau hyn gyda gofalwyr maeth a ph'un a ellid bod wedi datrys y materion hyn gan nad oedd yn ystyried eu bod yn broblemau mawr. Arweiniodd y symud lleoliadau at newid ysgol a gorfod gwneud ffrindiau newydd eto.

Ystyriai gofalwyr maeth bod cymorth therapiwtig yn hanfodol i sefydlogrwydd plant sy'n byw gyda nhw a phan nad oedd hyn ar gael, roedd yn ffactor a gyfrannai at chwalu'r lleoliad. Roedd rhai gofalwyr maeth yn gadarnhaol am y cymorth a gawsant gan eu hawdurdod lleol. Gwnaethant ddisgrifio bod hyn yn


amserol ac yn gefnogol, gyda mynediad i gymorth y tu allan i oriau, gweithwyr cymdeithasol therapiwtig a thimau 'ymylon gofal'. Roedd hyfforddiant ar gael iddynt, yn cynnwys hyfforddiant diogelu. Roedd yn amlwg bod rhai awdurdodau

lleol yn darparu cymorth trylwyr i'w gofalwyr maeth. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau y caiff anghenion cymhleth plant sy'n agored i niwed eu diwallu, osgoi trefniadau rhag chwalu a sicrhau gofal parhaol i blant a phobl ifanc.

Cynllunio gofal parhaol

Yr hyn a wyddom

Ffigur 6: Trefniadau cynllun gofal parhaol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ar 1 Ionawr 2018



Ffynhonnell: Data hunanwerthuso awdurdodau lleol a gasglwyd, 1 Ionawr 2018

Ar 1 Ionawr 2018, roedd gan 70% o blant gynllun gofal parhaol clir ar waith gan erbyn adolygiad pedwar mis y plentyn.

Yr hyn a ddysgom

Roedd gwasanaethau plant, yn cynnwys uwch reolwyr, gweithwyr cymdeithasol a Swyddogion Adolygu Annibynnol, yn ystyried y dylid rhoi blaenoriaeth i ofal parhaol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Pan wnaethom siarad â gweithwyr cymdeithasol, roedd yn amlwg eu bod wedi ystyried yr amrywiaeth lawn o opsiynau gofal parhaol i blant, yn cynnwys cynlluniau dychwelyd adref lle y bo'n briodol. Fodd bynnag, nid oedd y rhesymeg dros eu hargymhellion bob amser yn amlwg yn y ffeil achos.

Roedd awdurdodau lleol wedi datblygu amrywiaeth o systemau felly, unwaith roedd plentyn yn dechrau derbyn gofal, roedd ei amgylchiadau'n cael eu hadolygu gan banel neu reolwr a chawsai pob newid lleoliad a gwasanaeth ei gadarnhau gan y trefniadau hyn. Ymysg y pwysau sy'n deillio o'r prinder lleoliadau, gwelsom fod 28% o blant yn gorfod symud dwy neu dair gwaith (ar 31 Mawrth 2018).

Roedd yr achosion gofal yn amserol ar y cyfan ac o fewn Ffrâm amser 26 wythnos ar gyfer cwblhau; lle'r oedd oedi wedi digwydd, roedd awdurdodau lleol wedi ceisio deall yr achosion er mwyn helpu i sicrhau gwelliannau yn y dyfodol.


Mae awdurdodau lleol yn parhau i weithio'n galed er mwyn sicrhau nad yw plant yn dal i orfod cael ymyriadau diangen gan weithwyr cymdeithasol. Gwelsom ymrwymiad cryf i ddychwelyd plant a phobl ifanc i'w cartrefi yn llwyddiannus lle mai hyn oedd orau. Roedd rhywfaint o dystiolaeth o waith pwrpasol er mwyn helpu teuluoedd i newid a gwelsom fod rhywfaint o asesiadau rianta cynhwysfawr yn cael eu cynnal er mwyn rhoi sicrwydd bod penderfyniadau'n cael eu gwneud yn ddiogel. Mewn enghreifftiau eraill, nid oedd y broses o ddychwelyd adref wedi'i chynllunio cystal ac roedd y bobl ifanc yn dal i 'bleidleisio gyda'u traed'.

Mae angen i systemau gwybodaeth ddal data dibynadwy o ran y plant hynny sy'n cael cyfnodau pellach o ofal er mwyn nodi beth weithiodd yn dda a beth arall y gellid bod wedi'i wneud. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi datblygu gwasanaethau 'ymylon gofal' mae angen i hyn gyd-fynd â gwasanaethau tebyg ar gyfer plant sy'n dychwelyd adref, yn cynnwys y rhai y caiff gorchmynion gofal eu trefnu ar eu cyfer.

Sefydlogrwydd y gweithlu

Yr hyn a wyddom

Ffigur 7: Staff gwaith cymdeithasol sy'n gyfwerth ag amser llawn ar gyfer plant a phobl ifanc yn erbyn tueddiad 5 mlynedd cyfanswm y boblogaeth o blant sy'n derbyn gofal



Ffynhonnell: <https://statscymru.llyw.cymru>, Staff adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol sy'n gyfwerth ag amser llawn (pob blwyddyn) a Plant sy'n derbyn gofal gan awdurdodau lleol, yn ôl oedran a rhyw, ar 31 Mawrth 2018

Tabl 3: Proffil cysondeb gweithlu plant sy'n derbyn gofal

Plant sy'n derbyn gofal y neilltuwyd gweithiwr cymdeithasol iddynt	97%
Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi cael yr un gweithiwr cymdeithasol dros y chwe mis diwethaf	61%
Plant sy'n derbyn gofal sydd wedi gorfod newid gweithiwr cymdeithasol fwy na dwywaith yn y 6 mis diwethaf	13%
Y rhai sy'n gadael gofal y neilltuwyd cynghorydd personol iddynt	83%

DS: Ni fydd y canrannau yn gwneud cyfanswm o 100%

Ffynhonnell: Data hunanwerthuso awdurdodau lleol a gasglwyd, 1 Ionawr 2018

Nododd awdurdodau lleol fod tua 62% o blant sy'n derbyn gofal wedi cael yr un gweithiwr dros chwe mis ond roedd 15% wedi cael dau newid mewn gweithiwr mewn cyfnod o chwe mis hyd at 1 Ionawr 2018.

Yr hyn a ddysgom

Gwelsom fod gan y gweithlu gymwysterau a sgiliau addas yn gyffredinol a'i fod yn ymrwymedig iawn i wella canlyniadau i blant a phobl ifanc. Mae capasiti'r gweithlu yn dal i effeithio ar gysondeb y cymorth a gynigir i rai plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal. Mae pwysau gwaith a disgwyliadau gwasanaethau wedi effeithio ar amser gweithwyr i fyfrio a'u cyfle i feithrin cymhwysedd a hyder yn eu gallu eu hunain.

Mae'r trosiant o ran staff a rheolwyr, yn aml oherwydd dyrchafiadau mewnol ac allanol, ac absenoldeb staff oherwydd cyfnod mamolaeth neu salwch, yn golygu bod rhai timau yn wynebu pwysau o ran y gwasanaeth.

Mae'r defnydd o staff asiantaeth wedi gostwng yn sylweddol. Roedd rhai awdurdodau lleol yn dal i ddefnyddio nifer fach o weithwyr asiantaeth profiadol i atgyfnerthu timau.

Gwelsom well ymarfer gyda'r rhan fwyaf o blant yn cael eu gweld yn fwy rheolaidd gan weithiwr cymdeithasol. Fodd bynnag, oherwydd y swyddi gwag a'r llwythi gwaith mewn rhai awdurdodau lleol, nid oedd plant a phobl ifanc bob amser yn cael eu gweld gan eu gweithiwr dynodedig ac roedd rhai plant a phobl ifanc yn parhau i orfod wynebu gormod o newidiadau. Roedd newidiadau o'r fath mewn gweithwyr cymdeithasol a rheolwyr wedi cyfrannu at draddodiad o gynllunio gofal anghyson a chyfleoedd a gollwyd i sicrhau gofal parhaol yn gynharach.

Roedd awdurdodau lleol yn ymwybodol o bwysau ar y gweithlu a rhoddwyd cryn sylw i recriwtio ac yn gynyddol i gadw staff. Roedd y rhan fwyaf wedi sicrhau cynnydd o ran recriwtio i swyddi gweithwyr cymdeithasol ond roedd

gorddibyniaeth ar weithwyr sydd newydd gymhwyso a nodwyd ei bod yn fwy o her recriwtio staff profiadol.

Roedd rhai awdurdodau lleol wedi cael mwy o anawsterau wrth recriwtio i swyddi rheolwyr rheng flaen ac i swyddi uwch swyddogion. Bellach roedd llawer

ohonynt yn mabwysiadu 'dull tyfu ein hun'. Roedd yn gadarnhaol bod hyn yn cyd-fynd yn gynyddol â rhaglen hyfforddi a mentora er mwyn helpu staff i symud i rolau rheoli.

Yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym

Mae effaith y gydberthynas â gweithiwr cymdeithasol ar brofiad plentyn yn enfawr. Cafwyd sylwadau cadarnhaol gan rai plant a phobl ifanc ynghylch cael gweithiwr cymdeithasol cyson ond roedd y mwyafrif y gwnaethom siarad â nhw wedi gorfod newid gweithwyr cymdeithasol yn aml.

"In care for 13 years and had about 30 social workers".

Roeddent wedi cael "7 (social workers) in 7 years" ac roedd hyn yn "massive issue".

Siaradodd person ifanc am anawsterau wrth orfod dod i arfer â rhywun arall, a'r oedi pan oedd (y gweithiwr cymdeithasol newydd) yn darllen drwy'r ffeil achos.

"That they had around 3 or 4 social workers within 1 ½ years".

Nododd gweithwyr cymdeithasol, yn benodol y rhai sydd â llwythi achos cymysg, fod angen rhoi blaenoriaeth i ddiogelu ac achosion llys. Cydnabu pobl ifanc fod gan weithwyr cymdeithasol lwythi achos trwm, ond roedd ganddynt negeseuon pwysig i weithwyr cymdeithasol ddangos parch drwy ddychwelyd galwadau ffôn, gwrando ar eu safbwyntiau a bod ar gael.

Er i ni nodi bod rhai o'r rheini sy'n gadael gofal wedi profi amharu o ran eu trefniadau gyda'u cynghorwyr personol, nododd llawer ohonynt eu bod wedi cael cymorth da gan eu cynorthwydd personol. Siaradodd y rhan fwyaf yn gynnes iawn am y gydberthynas oedd ganddynt a'r cymorth gwerthfawr a gawsant. Galluogodd hyn pobl ifanc i wneud newidiadau pwysig

yn llai heriol. Er enghraifft, symud i fyw yn annibynnol a dechrau addysg bellach. Disgrifiodd llawer o bobl ifanc y ffaith bod gan eu gweithiwr cymdeithasol lai o amser i'w roi iddynt ac roedd newid gweithwyr cymdeithasol yn aml yn effeithio ar allu pobl ifanc i gymryd rhan a theimlo bod eu llais yn cael ei glywed.

Roedd ymatebion gan ofalwyr, plant a phobl ifanc yn dangos y sefyllfa gyffredinol ac effaith trosiant gweithwyr cymdeithasol a lefelau staffio annigonol.

Yr hyn a ddywedodd person ifanc wrthym

“When I first went into care, I was in a very bad place. I used to self-harm a lot. I never felt like I was judged or over reacting, or anything. I just had the best support. I got into drugs at one point too, and although they always told me it was no good and I should stop I was never judged. I’ve had so many ups and downs over the years, but it’s fair to say that xxx (SW’s) have always stuck by me and have really changed my life. When I didn’t have family, they were always there to talk to. 16+ team are an amazing bunch. Couldn’t have asked for better. You guys made such an impact that I am now working as a care assistant, and hope to one day either progress to your line or work, or youth offending”.

Llywodraethu a Rhianta corfforaethol

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol wedi nodi bod lleihau nifer y plant mewn gofal yn cynnwys lleihau nifer y plant sy'n cael eu lleoli y tu allan i'r awdurdod yn flaenoriaeth ac roeddent yn cyfeirio adnoddau at strategaethau lleihau diogel. Er gwaethaf y sylw a roddir i'r agenda hon, parhaodd y cynnydd cyflym yn nifer y plant sy'n derbyn gofal.

Mae angen i gynlluniau strategol sydd â'r nod o wella canlyniadau i blant a phobl ifanc gael eu datblygu, eu perchenogi a'u cyflwyno gan staff ac asiantaethau partner sy'n cynnwys cyfranogiad plant er mwyn helpu i lywio cynlluniau effeithiol.

Cydnabu awdurdodau lleol nad oeddent wedi ystyried lleisiau plant, pobl ifanc na'u teuluoedd wrth gynllunio gwasanaethau eto. Mae hyn yn hanfodol os yw awdurdodau lleol am ddeall y gwahaniaeth y mae help, gofal a chymorth a/neu ddiogelwch yn ei wneud i blant a theuluoedd.

Roedd awdurdodau lleol wedi'u haflonyddu gan y nifer gynyddol o blant sy'n derbyn gofal ac mae'n galonogol eu bod yn datblygu mwy o systemau i sicrhau eu hunain bod plant yn cael cymorth i aros gartref pan fydd yn ddiogel iddynt wneud hynny a phan gaiff trothwyon gofal eu cymhwyso'n briodol.

Ar y lefel fwyaf strategol, roedd awdurdodau lleol yn gallu cyfleu eu hymrwymiad i weledigaeth gyda'r nod o wella canlyniadau i bobl, yn cynnwys

plant sy'n derbyn gofal, drwy hyrwyddo annibyniaeth, atal pobl rhag bod yn agored i niwed a lleihau'r angen am ymyriadau statudol mwy dwys.

Fodd bynnag, nid oedd llawer o awdurdodau lleol wedi trosi'r ymrwymiad hwn yn gynlluniau strategol clir a oedd yn rhoi cyfeiriad, yn llywio ymarfer ac yn sefydlu disgwyliadau mesuradwy i'r gweithlu; ac yn rhoi sail glir ar gyfer uno partneriaid mewn agenda a rennir sy'n weithredol effeithiol.

Er bod awdurdodau lleol yn gweithio'n galed i drawsnewid gwasanaethau cymdeithasol i blant yng nghyd-destun Deddf 2014, roedd y broses o wneud hyn yn amrywio. Ddwy flynedd ers cyflwyno'r Ddeddf 2014, roedd rhai awdurdodau lleol yn dal ar gam cynnar o ran rhoi agweddau allweddol ar y Ddeddf ar waith ac roedd eraill yn adolygu eu trefniadau, yn sgil dysgu a phrofiad gweithredol. Nododd awdurdodau lleol fod angen buddsoddi llawer o amser a chapasiti o ran gwasanaeth yn hyn o beth ac yng nghyd-destun pwysau cynyddol ar adnoddau.

Roedd aelodau a swyddogion corfforaethol yn wybodus iawn ar y cyfan o ran eu hatebolrwydd statudol mewn perthynas â diogelu a rhianta corfforaethol. Gwnaethant nodi eu hymrwymiad i wella canlyniadau i blant a theuluoedd drwy ddatblygu ymyriadau cynnar ac ansawdd gofal a chymorth a arweinir gan waith cymdeithasol sy'n

fwy dwys. Roedd arweinwyr a rheolwyr yn agored am y ffaith bod pwysau cyllideb sylfaenol yn ffactor pwysig ar gyfer ailfodelu gwasanaethau cymdeithasol i blant, gan adlewyrchu ymwybyddiaeth daer o'r angen i leihau cost gwasanaethau plant o ystyried disgwyliadau a galw cynyddol.

Gwelsom welliant sylweddol mewn gwerthfawrogiad corfforaethol o'r heriau sy'n wynebu gwasanaethau cymdeithasol i blant o gymharu ag arolygiadau blaenorol. Fodd bynnag, yn aml roedd baich darparu yn erbyn gweithredoedd ymyrryd yn gynnar a rhianta corfforaethol wedi'i gyfyngu gormod i weithredoedd a rôl gwasanaethau cymdeithasol i blant yn hytrach na'i fod yn cael ei ystyried yn gyfrifoldeb corfforaethol ehangach.

Felly, roedd y graddau y gellir deall bod lleihau'r angen am ofal a chymorth dwys gan wasanaethau cymdeithasol i blant yn dibynnu ar allu cyfarwyddiaethau cynghorau a phartneriaid i gydweithio, wedi'u trosi'n gyfraniadau neu'n weithredoedd go iawn er mwyn cyflwyno ymyriadau cynnar a chanlyniadau gwell, yn dal i amrywio'n fawr.

Yn yr un modd, nid oedd y ddealltwriaeth gorfforaethol ehangach o'r cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â darparu gwasanaethau plant yn ddiogel ac yn effeithiol bob amser yn cyd-fynd â gwerthfawrogiad o bwysigrwydd arweinyddiaeth broffesiynol sefydlog.

Roedd yn amlwg bod barn sylfaenol yn aml, y tu allan i wasanaethau plant, fod yno 'nifer gywir' ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Felly, yn rhy aml roedd y cynnydd yn nifer y plant oedd yn dechrau derbyn gofal yn cael ei ystyried yn fethiant o ran gwasanaethau cymdeithasol, naill ai barn neu ymarfer, yn hytrach nag yn ganlyniad angenrheidiol yr awdurdod lleol a gwasanaethau

plant yn cyflawni eu cyfrifoldebau a'u dyletswyddau statudol.

Nid oedd y disgwyliad corfforaethol o ran y cyflymder y gellid ad-drefnu gwasanaethau'n ddiogel a sicrhau arbedion bob amser yn realistig ac ni roddwyd digon o sylw i'r graddau yr oedd angen buddsoddiad cynaliadwy ar gyfer strategaethau o'r fath.

Nid oedd dulliau sicrhau ansawdd systematig wedi'u datblygu'n ddigonol mewn llawer o wasanaethau plant awdurdodau lleol. Dylai'r rhain gael eu datblygu er mwyn sicrhau bod y cymorth a'r gwasanaethau a ddarperir ac a gomisiynir ar gyfer plant a theuluoedd yn amserol, o ansawdd da ac yn llwyddo i gyflawni canlyniadau gwell.

Roedd y rhan fwyaf o awdurdodau lleol newydd ddechrau gweithredu System Wybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS). Nid oedd buddiannau disgwyliedig y system wedi cael eu cyflawni eto ac roedd y broses o drosglwyddo i'r system electronig newydd wedi arwain at raddau amrywiol o ddiffyg parhad a bylchau cysylltiedig byrdymor mewn data. Roedd hyn wedi cael effaith andwyol ar brosesau rheoli perfformiad a sicrhau ansawdd.

Nid oedd bob amser yn amlwg bod y sefydliad ehangach yn llawn werthfawrogi lefel y capasiti ac adnoddau y mae gwasanaethau plant yn ei buddsoddi'n rheolaidd er mwyn deall a rheoli'r risg sy'n wynebu'r plant hynny sydd ar ymylon gofal a'r niferoedd sy'n dechrau derbyn gofal ac sy'n gadael gofal.

Mae deall effaith darparu gwasanaethau yn ganolog i gyflawni canlyniadau gwell i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd. Er bod pob awdurdod lleol yn ymgysylltu ag

amrywiaeth o weithgareddau sicrhau ansawdd, nid oedd gan y rhan fwyaf ohonynt fframwaith amlasiantaeth sefydledig sy'n gwneud y canlynol:

- monitro ansawdd y gwasanaeth yn rheolaidd yn erbyn trothwyon, manylebau a safonau gwasanaethau a rennir
- herio ymarfer a ffordd o feddwl yn gryf er mwyn hyrwyddo dysgu a gwelliant
- rhoi cymorth ac adborth uniongyrchol sy'n galluogi staff i 'gael pethau'n iawn y tro cyntaf'
- cael adborth gan blant a theuluoedd yn ogystal â'r sawl sy'n darparu ac yn comisiynu gwasanaethau.

Mae'n galonogol ein bod wedi gweld bod pwysigrwydd a gwerth gwybodaeth perfformiad wedi'i sefydlu'n dda mewn gwasanaethau plant.

Roedd awdurdodau lleol wedi datblygu a sefydlu systemau i gasglu a dadansoddi data ar berfformiad er mwyn cynorthwyo aelodau; uwch swyddogion; rheolwyr a staff i feithrin gwybodaeth berthnasol a chywir am gydymffurfiaeth â'u cyfrifoldebau statudol. Roeddent hefyd yn cefnogi'r broses o oruchwylio plant a phobl ifanc y mae angen gofal arnynt neu y gallai fod angen gofal arnynt a phryderon penodol ac sy'n ymddangos o ran diogelu.

Roedd gwasanaethau plant wedi bod yn cynnal dadansoddiad naratif o'r data ar gyfer aelodau a swyddogion corfforaethol fwyfwy, yn cynnwys 'astudiaethau achos' dienw, er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o gymhlethdod y galw a'r risgiau sy'n cael eu rheoli.

Nododd awdurdodau lleol fod y newid diweddar o'r hen fframwaith rheoli perfformiad cenedlaethol i'r mesurau canlyniadau newydd, a gyflwynwyd gan

Ddeddf 2014 yn 2016, hefyd wedi effeithio'n andwyol ar ddibynadwyedd ac amrywiaeth y data a gasglwyd.

Roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi nodi gwahaniaethau yn y ffyrdd roedd awdurdodau lleol yn cofnodi eu gweithgarwch ac roedd yn gweithio gydag awdurdodau er mwyn adolygu'r fframwaith perfformiad.

Strategaethau lleihau gofal yn ddiogel

Roedd yr awdurdodau lleol hynny a oedd wedi gweld cynnydd yn gynharach yn nifer y plant a oedd yn dechrau derbyn gofal wedi cyrraedd cam pellach yn y gwaith hwn, ond nodwyd, er gwaethaf y sylw a roddwyd i'r agenda hon, fod y cynnydd cyflym yn nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal yn parhau.

Roedd y strategaethau lleihau gofal yn ddiogel a welwyd yn ddibynol ar y canlynol:

- Lleihau nifer y plant sy'n dechrau derbyn gofal drwy ddatblygu ymyriadau cynnar.
- Mwy o sylw ar ofal parhaol, e.e. defnyddio gorchmynion amgen fel Gorchmynion Gwarcheidiaeth Arbennig, cyflawni gorchmynion, lleihau faint o amser y mae plant yn ei dreulio mewn gofal.

Roedd hyn yn cynnwys:

- Nodi a sicrhau bod y plant a'r bobl ifanc hynny sy'n gallu dychwelyd adref yn gwneud hynny gyda'r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i leihau'r risg y byddant yn dychwelyd i ofal.
- Ar gyfer plant na allant ddychwelyd adref, mae hyn yn golygu gwella perfformiad mewn perthynas â mabwysiadu; dod o hyd i leoliadau amgen addas yn ddi-oed a chadw neu ddychwelyd plant a phobl ifanc o leoliadau y tu allan i'r awdurdod.

- Roedd awdurdodau lleol yn targedu adnoddau i gefnogi gwaith uniongyrchol perthnasol gyda phlant, pobl ifanc a'u teuluoedd fwyfwy, yn cynnwys er enghraifft, ad-drefnu timau er mwyn creu timau penodol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac sy'n gadael gofal, timau asesu cyn geni. Roedd y datblygiadau hyn yn cael eu llywio fwyfwy gan wybodaeth perfformiad.
- Roedd gan y rhan fwyaf ohonynt ddulliau i nodi'r plant a'r bobl ifanc hynny y byddai dirymu neu newid eu gorchymyn yn briodol a lle gellid dychwelyd plentyn i'w awdurdod cartref. Roedd yr ymdrech i leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal a oedd wedi'u lleoli y tu allan i'r awdurdod cartref wedi golygu bod yn rhaid i awdurdodau lleol newid trefniadau comisiynu. Er enghraifft, roedd mwy o awdurdodau lleol yn datblygu eu cydberthnasau â darparwyr allanol gyda'r bwriad o gynyddu darpariaeth yn yr ardal leol, cynyddu eu darpariaeth breswyl fewnol eu hunain a gweithio ar sail ranbarthol er mwyn datblygu darpariaeth ar gyfer plant ag anghenion cymhleth.

Rhianta Corfforaethol

Nododd pob awdurdod lleol ei ddyhead i hyrwyddo canlyniadau da ar gyfer plant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal ac roedd gan y mwyafrif amrywiaeth o drefniadau rhianta corfforaethol ar waith. Roedd llawer o awdurdodau lleol yn ystyried sut i wella effeithiolrwydd eu gweithredoedd rhianta corfforaethol ac/neu roeddent wrthi'n diwygio eu trefniadau ac yn diweddarau eu strategaeth rhianta corfforaethol. Mewn rhai awdurdodau lleol, nid oedd yr ethos rhianta corfforaethol yn ddigon cryf ac roeddent yn cael trafferth profi sut roedd plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn cael eu cefnogi

i gymdeithasu â chyfoedion a chyflawni canlyniadau cadarnhaol.

Roedd y broses o gynnwys yr awdurdod lleol ehangach a phartneriaid yn yr agenda rhianta corfforaethol yn anghyson. Roedd cynnydd yn dibynu ar ymrwymiad prif swyddogion arweiniol, yn hytrach nag yn adlewyrchu dyhead corfforaethol a rennir sydd wedi'i ymgorffori ar gyfer plant sy'n derbyn gofal.

Roedd effeithiolrwydd nifer o fyrddau/ paneli wedi'i atal gan newid sefydliadol ac aelodaeth newidiol. Yn yr amgylchiadau hyn, roedd y byrddau'n ei chael hi'n anodd datblygu a chynnal momentwm, ac yn aml roeddent yn cael eu hysgogi gan y prosiect, gan gyfyngu gallu'r bwrdd i hyrwyddo newid dynamig.

Cafodd pob bwrdd wybodaeth perfformiad, yn cynnwys gwybodaeth am ddiogelu. Yn yr enghreifftiau gorau, roeddent wedi cael dadansoddiad ac adroddiadau gan bartneriaid allweddol eraill fel y bwrdd iechyd neu addysg. Ar adegau, roedd yr adroddiadau hyn yn adlewyrchu blaenoriaethau ehangach y sefydliad partner yn hytrach nag yn cael eu hysgogi gan agenda rhianta corfforaethol.

Roedd gallu'r byrddau/paneli i gynnal trosolwg cynhwysfawr o gynydd plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sy'n gadael gofal yn amrywiol. Yn aml, nid oedd trefniadau rhianta corfforaethol yn cynnwys gwybodaeth glir am ansawdd y gwasanaeth a ddarperir, er enghraifft o ran canlyniadau lleoli.

Roedd yr ymgysylltiad uniongyrchol â phlant, pobl ifanc a gofalwyr yn cael ei werthfawrogi'n fawr ond roedd awdurdodau lleol yn parhau i gael trafferth wrth geisio sicrhau bod hyn yn ystyrlon ac yn gynrychioliadol.

Casgliad

Gwnaethom nodi ymarfer cadarnhaol a gyflawnwyd gan staff rheng flaen diwyd a phroffesiynol a gwelsom enghreifftiau o arweinyddiaeth a chyfeiriad clir.

Clywsom hefyd am blant a phobl ifanc oedd wedi cael profiad cadarnhaol o ofal, ond nid dyna'r achos i bob plentyn oedd yn derbyn gofal oedd wedi cael canlyniadau gwael.

Nid yw llawer o'r meysydd rydym wedi'u nodi ar gyfer gwelliant yn newydd, ond mae angen gwneud mwy o waith

i nodi atebion cynaliadwy a'u rhoi ar waith. Mae llawer o'r rhain yn cael eu hystyried gan Grŵp Cyngori Gweinidog Llywodraeth Cymru ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc sydd wedi bod mewn gofal. Rydym yn gobeithio y bydd yr adroddiad hwn ynghyd â'n hadroddiad ar ganlyniadau i blant sy'n byw mewn cartrefi gofal yn cyfrannu at y gwaith hwn; byddwn hefyd yn rhannu ein canfyddiadau drwy ddigwyddiad dysgu a gaiff ei gynllunio mewn partneriaeth â Gofal Cymdeithasol Cymru.

Diolchiadau

Hoffai AGC ddiolch i'r plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr, gweithwyr proffesiynol awdurdodau lleol ac asiantaethau partner sydd wedi cyfrannu at yr adroddiad trosolwg. Mae eich cyfraniadau wedi cael eu gwerthfawrogi a'u gwerthfawrogi'n fawr.